**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
7 Ionawr 2025

## RHAN 1

## Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 ('y Rheoliadau') yn gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau iechyd, a ddarperir fel rhan o'r GIG yng Nghymru, eu caffael.

2. Mae'r Rheoliadau'n disodli'r gyfundrefn caffael cyhoeddus bresennol a ddarperir gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ('PCR 2015')[1]. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ymateb i newidiadau ehangach yn nhirwedd gyfreithiol caffael cyhoeddus yn y DU sydd wedi gweld nifer o newidiadau pwysig ers i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae datblygiadau allweddol wedi cynnwys Deddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU[2], sy'n diwygio'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn caffael nwyddau a gwasanaethau yn y DU ac yn diddymu PCR 2015. Ar wahân, mae newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu caffael yn Lloegr wedi digwydd yn sgil cyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr (CDD),[3] gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) Llywodraeth y DU o dan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022[4] a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006[5].

3. Yng ngoleuni'r newidiadau hyn, mae Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024[6] ('y Ddeddf') yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu newidiadau i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer cyflwyno cyfundrefn gaffael bwrpasol, a elwir yn 'Gyfundrefn Dethol Darparwyr Cymru' neu 'CDD Cymru', ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r GIG yng Nghymru. Yn fras, mae'r Rheoliadau'n ceisio adfer 'chwarae teg' ym maes caffael gwasanaethau iechyd ledled Cymru a Lloegr; gan ddarparu cyfundrefn fodern sy'n llywodraethu caffael y gwasanaethau hyn yng Nghymru.

4. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys:

    i. darpariaethau i ddatgymhwyso Deddf Caffael 2023 fel nad ydynt yn gymwys i gontractau pan fo'r Rheoliadau hyn yn gymwys;
    ii. yr egwyddorion caffael, y meini prawf allweddol a'r meini prawf sylfaenol ar gyfer gwneud penderfyniadau wrth gaffael gwasanaethau iechyd o'r fath o dan y Rheoliadau hyn;
    iii. manylion y prosesau caffael a phryd y mae pob proses yn gymwys, gan gynnwys dwy broses dyfarniad uniongyrchol, y 'broses darparwr mwyaf addas' a'r 'broses gystadleuol'; a manylion yr hysbysiadau y mae'n rhaid eu cyhoeddi fel rhan o'r prosesau hynny;

[1] Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (deddfwriaeth.gov.uk)
[2] Deddf Caffael 2023 (deddfwriaeth.gov.uk)
[3] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk)
[4] Deddf Iechyd a Gofal 2022 (deddfwriaeth.gov.uk) adran 79
[5] Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (deddfwriaeth.gov.uk)
[6] Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 (deddfwriaeth.gov.uk)

iv. trefniadau monitro, trefniadau trosiannol a threfniadau addasu, yn ogystal â gweithdrefnau ar gyfer dyfarniadau brys, rheoli gwrthdaro buddiannau a chyfnodau segur ar gyfer y gyfundrefn gaffael newydd;
v. rhestr o godau'r Eirfa Gaffael Gyffredin (GGG) yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau i ddiffinio'r mathau o 'wasanaethau iechyd' sy'n cael eu cynnwys fel rhan o'r gyfundrefn gaffael newydd;
vi. darpariaeth ar gyfer 'caffaeliad cymysg' gwasanaethau iechyd perthnasol gyda nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny o dan y Rheoliadau;
vii. darpariaeth mewn perthynas â chytundebau fframwaith; sut y gellir eu cwblhau; sut y gellir dethol darparwyr ychwanegol a'r prosesau i'w dilyn wrth gaffael o dan gytundeb fframwaith; ac
viii. darpariaeth ar gyfer panel adolygu annibynnol i oruchwylio penderfyniadau o dan y gyfundrefn.

5. Bydd y Rheoliadau'n gymwys i 'awdurdodau perthnasol' fel y'u diffinnir yn adran 10A(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006[7], wrth gaffael gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r GIG yng Nghymru.

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

6. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys diweddariadau i'r rhai a osodwyd ar 13 Awst 2024 ac a dynnwyd yn ôl wedyn ar 19 Medi 2024, yn sgil y penderfyniad i ohirio cychwyn Deddf Caffael Llywodraeth y DU tan fis Chwefror 2025[8].

7. Yn unol ag argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ystod ei waith craffu ar y Ddeddf, ac fel sy'n ofynnol gan ddarpariaethau'r Ddeddf, ymgynghorwyd ar yr egwyddorion gweithredol sy'n sail i'r Rheoliadau cyn i'r Rheoliadau gael eu cyflwyno. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.[9] Ceir rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad ym mharagraff 28 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

8. Yn ystod hynt y Ddeddf, cododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad nifer o faterion sydd wedi llywio datblygiad y Rheoliadau. Er enghraifft, datblygwyd y Rheoliadau gan roi sylw dyladwy i sut y bydd y gyfundrefn newydd yn effeithio ar faterion 'caffaeliad cymysg' gwasanaethau iechyd, a nwyddau neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny. Mae'r sefyllfa yn ymwneud â'r mathau cyfyngedig hyn o gaffael hefyd wedi'i llywio gan y ffordd y mae DHSC wedi ymdrin â'r materion hyn yn ei CDD yn Lloegr. Darperir rhagor o fanylion gweithredol ynghylch sut y dylid rheoli'r caffaeliadau hyn o dan CDD Cymru yn y Canllawiau Statudol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn.

---

[7] Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (deddfwriaeth.gov.uk) - adran 10A
[8] Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2024 (19 Medi 2024) | LLYW.CYMRU
[9] Caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru | LLYW.CYMRU

9. Cododd y Pwyllgor gwestiynau hefyd ynghylch y berthynas rhwng y Ddeddf a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020[10] ('UKIMA'). Roedd y Pwyllgor yn pryderu a allai rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf yn y dyfodol, mewn perthynas â chaffael nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd, fod yn gyfyngedig o ran eu heffaith ymarferol os ydynt yn sbarduno'r egwyddor peidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau a nodir yn UKIMA. Codwyd y mater hwn hefyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod ei waith craffu ar y Ddeddf, ac argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad cam 1 y dylid asesu a yw unrhyw un o'r amcanion yn rheoliadau'r dyfodol yn ymgysylltu ag UKIMA[11].

10. Cynhaliwyd asesiad ar y mater hwn a ddaeth i'r casgliad nad yw UKIMA yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Hynny yw, pan fydd y Senedd yn deddfu mewn ardaloedd nas cedwir yn ôl, mae'n gwneud hynny'n rhydd o ofynion y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys pan fo'r Senedd yn deddfu i roi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, fel y bydd y pwerau gwneud rheoliadau hynny, o'u harfer, yn gallu cael eu harfer yn rhydd o ofynion UKIMA.

### Materion o ddiddordeb arbennig i bwyllgorau craffu eraill y Senedd wrth graffu ar y Ddeddf

### Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

11. Yn ogystal â'r rhyngweithio ag UKIMA, gwnaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol argymhellion mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a hyfforddi rhanddeiliaid ynglŷn â gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd[12]. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol hwn ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr egwyddorion gweithredol sy'n sail i'r Rheoliadau. Mae rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn cynnwys gwybodaeth am y ddarpariaeth hyfforddiant i awdurdodau perthnasol ymgyfarwyddo â gofynion y gyfundrefn gaffael newydd.

12. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r gyfundrefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd wneud darpariaeth i sicrhau yr ymgynghorir â defnyddwyr gwasanaethau pan fydd awdurdodau perthnasol yn gwneud penderfyniadau caffael[13]. Mewn ymateb, gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ymrwymiad i ystyried hyn ymhellach wrth ddatblygu'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol, gan ystyried ymarferoldeb ymgynghori â'r cyhoedd ochr yn ochr â chyflawni contractau gwasanaeth unigol. Wrth ddatblygu'r Rheoliadau, ymgysylltwyd â 'Llais', Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru[14]. O ganlyniad, mae cyfeiriadau penodol at rôl 'Llais' wedi'u cynnwys yn y Canllawiau Statudol i gyd-fynd â'r Rheoliadau, gan nodi sut y disgwylir i awdurdodau perthnasol roi sylw priodol i unrhyw sylwadau a wneir gan Llais wrth gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

---

[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - Adroddiad ar Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (senedd.cymru) – paragraff 63
[11] https://senedd.cymru/media/epolalzn/cr-ld15809-w.pdf, tudalen 60, argymhelliad 11
[12] Senedd Cymru - argymhellion 6 a 9
[13] https://senedd.cymru/media/epolalzn/cr-ld15809-w.pdf tudalen 28
[14] Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | LLYW.CYMRU

## Y Pwyllgor Cyllid

13.Gwnaeth y Pwyllgor Cyllid argymhelliad penodol yn ystod ei waith craffu ar y Ddeddf mewn perthynas â darparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) llawn a chadarn ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir gan y Ddeddf; yn ogystal ag argymell y dylid cynnal asesiad i ddeall risgiau ac effaith ariannol bod â dwy gyfundrefn wahanol ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr dros dro[15]. Mae gwybodaeth, i'r graddau y mae'n ymarferol ei darparu, yn rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

## Y cefndir deddfwriaethol

14.Gwneir y Rheoliadau gan ddefnyddio pwerau o dan adran 120A o Ddeddf Caffael 2023 ac adran 10A o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru) 2024. Yn flaenorol, nodwyd trefniadau ynghylch caffael ar gyfer y mathau o wasanaethau a gwmpesir gan y Rheoliadau yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

15.Mae'r Rheoliadau'n datgymhwyso'r darpariaethau a nodir yn Neddf Caffael 2023[16], i'r graddau y byddai'n gymwys i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru, ac yn cyflwyno cyfundrefn newydd CDD Cymru yn ei lle. Datblygwyd y Rheoliadau yn unol â'r gofynion a nodir yn adran 10A o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

16.Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

## Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

17.Gall caffael weithredu fel galluogwr allweddol i gefnogi cyflawni blaenoriaethau strategol. Yn flaenorol, y prif fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a Lloegr oedd y 'gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn'[17] a nodir yn rheoliad 74 o PCR 2015.

18.Nid oedd gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn (sy'n cynnwys gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig) yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn gaffael lawn o dan PCR 2015. Roedd hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau contractio mewn perthynas â'r math o gaffael i'w wneud ac yn caniatáu i awdurdodau contractio addasu gweithdrefn i ddiwallu eu hanghenion penodol, cyn belled â bod y weithdrefn a fabwysiadwyd yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion craidd tryloywder a thriniaeth gyfartal.

19.Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, mae amryw o newidiadau'n cael eu gwneud i'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn caffael nwyddau a gwasanaethau, gyda'r bwriad o sicrhau bod

---

[15] https://senedd.cymru/media/ljbfmdzm/cr-ld15795-w.pdf argymhellion 1 a 2

[16] Deddf Caffael 2023 (deddfwriaeth.gov.uk)

[17] Microsoft Word - Canllawiau ar y Gyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn v28 diweddarwyd Hydref 2015 i'w gyhoeddi (1).docx (publishing.service.gov.uk)

trefniadau'n diwallu anghenion gwledydd y DU yn well. Un newid allweddol yw cyfundrefn gaffael newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU o dan Ddeddf Caffael 2023 ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig gan gynnwys Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024[18]. Penderfynodd Gweinidogion Cymru ganiatáu i 'Awdurdodau Contractio Cymru' gael eu cynnwys yn niwygiadau caffael Llywodraeth y DU fel rhan o Ddeddf Caffael 2023.

20. Ar wahân, cyflwynwyd cynigion i newid y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu caffael yn Lloegr o dan ddarpariaethau yn Neddf Iechyd a Gofal 2022[19] a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 Llywodraeth y DU. Mae'r Ddeddf hon yn galluogi caffael gwasanaethau gofal iechyd yn **Lloegr** i gael ei ddileu o gwmpas rheolau caffael cyhoeddus cyffredinol ac yn caniatáu i set newydd o reolau gael ei rhoi ar waith yn benodol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Mae'r rheolau hyn wedi'u nodi yn Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023[20], a gyflwynwyd gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU.

21. O 1 Ionawr 2024, mae CDD newydd DHSC wedi bod yn gymwys i gaffaeliadau 'gwasanaethau gofal iechyd' y GIG yn Lloegr yn unig. Ei nod cyffredinol yw symud i ffwrdd o'r disgwyliad i gynnal cystadleuaeth o dan yr holl amgylchiadau a thuag at system o gydweithio a phartneriaeth, sy'n helpu i uno gwasanaethau ar draws y system iechyd gyfan. Nod y dull hwn yw dileu lefelau diangen o dendro cystadleuol, dileu rhwystrau i integreiddio gofal a hyrwyddo datblygiad trefniadau cydweithio sefydlog. Felly, bydd yn rhoi'r hyblygrwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn GIG Lloegr a sefydliadau llywodraeth leol yn Lloegr i drefnu gwasanaethau iechyd sy'n hyrwyddo orau buddiannau cleifion a'r boblogaeth o fewn eu hardaloedd, yn ogystal ag ystyried y gwerth am arian cyhoeddus.

22. Ar hyn o bryd, y GIG yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau iechyd drwy amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys trefniadau drwy 'Gontractau o'r GIG i'r GIG' ('Contractau'r GIG')[21] ac mewn sefyllfaoedd lle nad oes gan y GIG yng Nghymru y capasiti mewnol na'r gallu arbenigol i ddiwallu anghenion cleifion, drwy drefniadau gyda darparwyr annibynnol gan ddefnyddio cytundebau yn ôl y gofyn (gan gynnwys fframweithiau), neu drwy'r gweithdrefnau caffael o dan PCR 2015.

## Yr Achos dros Newid

23. Mae gan y newidiadau a gyflwynwyd gan yr CDD yn Lloegr oblygiadau i Gymru a'r gallu i ymgysylltu â darparwyr annibynnol a pharhad gwasanaethau i ddinasyddion Cymru. Mae'r Ddeddf a'r Rheoliadau'n ceisio ymateb i'r mater hwn a lliniaru yn erbyn y risg o fod â dwy gyfundrefn gaffael anghyson yn gweithredu ledled Cymru a Lloegr mewn perthynas â gwasanaethau iechyd. Heb y newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith drwy'r Rheoliadau, mae risg o ystod o ganlyniadau ymarferol anfwriadol ar gyfer caffael a chomisiynu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol. Gallai'r rhain gynnwys:

[18] Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 (legislation.gov.uk)
[19] Deddf Iechyd a Gofal 2022 (deddfwriaeth.gov.uk)
[20] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk)
[21] Contractau'r GIG fel y'u diffinnir gan Adran 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

i. aflunio’r platfform caffael gwasanaethau iechyd cyfochrog presennol rhwng Cymru a Lloegr;
ii. cyfyngu ar y gallu i gomisiynu gwasanaethau iechyd ar y cyd a manteision cysylltiedig arbedion maint ariannol ac adnoddau;
iii. cyfyngu ar awydd cyflenwyr i gyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru oherwydd bod rhaid iddynt gymryd rhan mewn gwahanol gyfundrefnau rheoleiddiol caffael a chymryd rhan mewn ymarferion tendro cystadleuol. Gallai hyn gynyddu costau a phwysau adnoddau i awdurdodau perthnasol wrth gaffael a denu cyflenwyr o ansawdd uchel yn y dyfodol.

24. Mae adran 10A o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd sy’n cefnogi cyflawni amcanion strategol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru[22] ac yn lleihau’r potensial i Gymru fod o dan anfantais yn sgil cyflwyno diwygiadau caffael ar gyfer gwasanaethau iechyd yn Lloegr.

25. Yn ogystal â’r Rheoliadau, mae’r Canllawiau Statudol yn nodi’r elfennau gweithredol y bydd angen i awdurdodau perthnasol eu hystyried wrth weithredu’r gyfundrefn gaffael newydd.

26. Wrth amlinellu’r gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru, mae’r Rheoliadau’n cyd-fynd ag CDD DHSC mewn nifer o ffyrdd allweddol:

i. symud i ffwrdd o sefyllfa o dendro cystadleuol diangen; galluogi awdurdodau perthnasol yng Nghymru i weithredu prosesau caffael mwy hyblyg gyda’r gallu i ymgymryd â dyfarniad uniongyrchol a throsglwyddo contractau o dan amgylchiadau lle mae darparwyr cyfyngedig/presennol. Bydd y gyfundrefn hefyd yn cynnig y posibilrwydd o ‘brofi’r farchnad’ drwy broses gystadleuol os bydd awdurdodau perthnasol yn dewis gwneud hynny. Mae’r prosesau caffael hyn wedi’u hamlinellu fel a ganlyn:

  - Proses Dyfarniad Uniongyrchol 1 (fel proses A CDD DHSC);
  - Proses Dyfarniad Uniongyrchol 2 (fel proses C CDD DHSC);
  - Y ‘Broses Darparwr Mwyaf Addas’;
  - Y Broses Gystadleuol;

ii. nodi’r ‘egwyddorion caffael’ y mae angen i awdurdodau perthnasol eu hystyried wrth ddefnyddio’r gyfundrefn gaffael, yn ogystal â’r ‘meini prawf sylfaenol’ a’r prif ‘feini prawf allweddol’ y mae angen eu hystyried wrth ddethol darparwyr;
iii. caffael ‘nwyddau a gwasanaethau’ eraill fel caffaeliad cymysg, ond dim ond pan fyddant yn gysylltiedig â’r gwasanaeth iechyd sy’n brif bwnc y caffaeliad;
iv. addasu contractau, dyfarniadau brys, a rhoi’r gorau i’r camau mewn proses gaffael neu eu hailadrodd;
v. efelychu’r diffiniad o ‘newid sylweddol’;
vi. contractau yn seiliedig ar gytundebau fframwaith;

[22] Rhaglen lywodraethu | LLYW.CYMRU

vii. gwrthdaro buddiannau a mecanwaith adrodd h.y. hysbysu, monitro cydymffurfiaeth, mesurau gorfodi;
viii. terfynu contractau;
ix. gofynion gwybodaeth - cadw cofnodion a chyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas â dyfarniadau, gofynion monitro a chrynodebau blynyddol;
x. rhestr o'r codau GGG[23] sy'n nodi'r rhestr o wasanaethau iechyd o dan y gyfundrefn arfaethedig; a
xi. cynnwys hysbysiadau i'w cyhoeddi gan awdurdodau perthnasol mewn perthynas â phob proses gwneud penderfyniadau.

27. Ar y llaw arall, i gyflawni amcanion polisi unigryw Cymru, bydd y gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru hefyd yn wahanol i'r dull a ddefnyddir yn CDD DHSC mewn nifer o feysydd:

i. nid yw'n efelychu 'proses gwneud penderfyniad B' DHSC - gan nad oes trefniadau 'Dewis Cleifion' rheoleiddiol cyfatebol yng Nghymru;
ii. yn gysylltiedig â hyn, rôl panel adolygu annibynnol o ran goruchwylio penderfyniadau o dan y gyfundrefn – ni fydd hyn ond yn gymwys i benderfyniadau caffael a wneir gan awdurdodau perthnasol, ac nid yr elfen 'Proses Gwneud Penderfyniad B - dewis cleifion' o CDD DHSC. Mae rôl a chylch gwaith y panel adolygu annibynnol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ac a all trefniadau o'r fath gefnogi diwygiadau caffael cyhoeddus ehangach yng Nghymru;
iii. mae ychydig yn wahanol i ddull DHSC o ran fframweithiau caffael i alluogi cyfnod y cytundebau fframwaith i bara hyd at 8 mlynedd (yn hytrach na hyd at 4 blynedd yn CDD DHSC);
iv. cynnwys methodoleg ar gyfer diffinio 'gwerth oes amcangyfrifedig' i alluogi awdurdodau perthnasol i bennu'r 'prif bwnc' o dan gaffaeliad cymysg ac addasiadau yn ystod tymor contractau;
v. newidiadau i'r meini prawf allweddol arfaethedig y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol eu hystyried wrth wneud penderfyniadau caffael, yn dilyn adborth gan randdeiliaid;
vi. addasu'r cyfnodau segur ar brosesau gwneud penderfyniadau i hybu tryloywder a, phan fo'n briodol, gyd-fynd â chyfnodau segur a nodir yn Neddf Caffael 2023;
vii. newidiadau i'r dull gweithredu o ran eithrio darparwyr er mwyn bod yn gyson, pan fo'n briodol, â darpariaethau a nodir yn Neddf Caffael 2023;
viii. cynnwys esemptiad i alluogi awdurdodau perthnasol i ymatal rhag cyhoeddi 'gwybodaeth fasnachol sensitif' o dan amgylchiadau penodol; a
ix. gofynion ychwanegol i awdurdodau perthnasol gyhoeddi hysbysiadau pan fyddant yn dyfarnu contract o dan ddyfarniad uniongyrchol ac yn ymgymryd â dyfarniad uniongyrchol fel rhan o gytundeb fframwaith wedi'i gwblhau.

[23] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk) Atodlen 1 Codau GGG

## Ymgynghori

28. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr egwyddorion gweithredol a gwmpesir gan y Rheoliadau yn y lle cyntaf fel rhan o'r gwaith craffu ar Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ymgysylltu rhagweithiol a phenodol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys GIG Cymru, Undebau Iechyd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (gan gynnwys comisiynwyr gofal cymdeithasol); a'r trydydd sector. Gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru waith ymgysylltu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Ddeddf, a chynhaliodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ei ymarfer ymgynghori ei hun wrth gyflawni ei rôl o ran craffu ar y ddeddfwriaeth.[24]

29. Cydnabuwyd pwysigrwydd ymgynghori wrth ddatblygu'r Ddeddf, yn enwedig gan y derbyniwyd y byddai manylion gweithredol y gyfundrefn gaffael newydd yn cael eu darparu yn y Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. O ystyried pwysigrwydd sicrhau ymgynghoriad priodol ar y manylion gweithredol hyn, mae'r Ddeddf yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru gynnal unrhyw ymgynghoriad y maent yn ystyried ei fod yn briodol, cyn gwneud y Rheoliadau hyn, a chyhoeddi crynodeb o'r ymatebion.

30. Cyflawnwyd y gofyniad hwn o dan y Ddeddf drwy ymarfer ymgynghori 12 wythnos llawn, agored a chyhoeddus a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Rheoliadau. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar egwyddorion gweithredol y gyfundrefn newydd arfaethedig rhwng 27 Tachwedd 2023 a 23 Chwefror 2024, gan ofyn am farn rhanddeiliaid ar amrywiaeth o feysydd sy'n berthnasol i'r Rheoliadau[25].

31. Yn benodol, cafodd yr ymgynghoriad ei fframio mewn ffordd a fyddai'n:
    i. rhoi crynodeb cefndir i randdeiliaid o'r darpariaethau yn rheoliadau CDD DHSC;
    ii. darparu dehongliad cychwynnol Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau a nodir yn rheoliadau CDD DHSC a chanllawiau statudol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau; a
    iii. darparu manylion cymhwysedd ac addasrwydd y darpariaethau yn rheoliadau CDD DHSC a gofyn am farn ynghylch a ddylai Gweinidogion Cymru geisio alinio â'r darpariaethau hynny neu wyro oddi wrthynt wrth ddatblygu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru.

32. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar agweddau gweithredol ar y gyfundrefn. Roedd hyn yn cynnwys nifer o gwestiynau amlddewis yn gofyn a oedd rhanddeiliaid yn cytuno/anghytuno a nifer o gwestiynau agored i roi cyfle i randdeiliaid ddarparu naratif ychwanegol. Gofynnwyd cwestiynau penodol ynghylch effaith y cynigion ar y Gymraeg.

33. Darparwyd hysbysiad o'r ymgynghoriad i randdeiliaid drwy grwpiau rhanddeiliaid penodol, yn ogystal â gwaith ymgysylltu pellach wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid a gynhaliwyd gyda grwpiau buddiant allweddol, a oedd yn cynnwys ymhlith eraill:

---

[24] Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (senedd.cymru)

[25] Caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru | LLYW.CYMRU

i. Arweinwyr caffael, gofal sylfaenol, cyllid a chynllunio GIG Cymru;
ii. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC);
iii. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC);
iv. Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru);
v. Rhwydwaith comisiynu'r gwasanaethau cymdeithasol;
vi. Anabledd Cymru;
vii. Triniaeth Deg i Fenywod Cymru;
viii. Bwrdd cynllunio ardal camddefnyddio sylweddau; a
ix. Llais.

34. Denodd yr ymgynghoriad 34 ymateb gan amrywiaeth o randdeiliaid; roedd yr adborth mwyaf cyffredin yn cynnwys sylwadau ar y canlynol:

i. cymhwysiad ac ehangder y rhestr arfaethedig o godau GGG sydd wedi'u cynnwys yn y gyfundrefn;
ii. cynyddu neu leihau'r 'meini prawf sylfaenol' a'r 'meini prawf allweddol' y mae angen eu hystyried pan fydd awdurdodau perthnasol yn dethol darparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol;
iii. diffiniadau o 'gaffaeliad cymysg', gan gynnwys cymhwyso'r trothwy 'prif bwnc' a 'rhesymol wahanadwy';
iv. trothwyon ar gyfer 'addasu contractau' a 'newid sylweddol'
v. rôl, cylch gwaith a gweithrediad y 'panel adolygu annibynnol' ar gyfer y gyfundrefn gaffael;
vi. tryloywder, monitro a chyhoeddi gwybodaeth o dan y gyfundrefn arfaethedig;
vii. cyfnodau a hyd fframweithiau;
viii. trefniadau pontio a chyflwyno, amseru, hyfforddiant ac ati mewn perthynas â'r gyfundrefn gaffael newydd;
ix. cymhwyso'r gyfundrefn arfaethedig a'r effaith ar 'gontractau' o'r GIG i'r GIG'; a
x. integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

35. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 15 Ebrill 2024[26].

## Asesiad effaith integredig (IIA)

36. Mae Asesiad Effaith Integredig (IIA) wedi'i gwblhau ar gyfer y Rheoliadau. Bydd adrannau 1 ac 8 o'r IIA, ynghyd â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

[26] Caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru | LLYW.CYMRU

**Darpariaethau yn y Rheoliadau i fodloni gofynion adran 10A(5) o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006**

37. O dan adran 10A(5) o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys gwybodaeth yn y deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i ddangos sut y maent yn bodloni'r ddarpariaeth at ddibenion:
    i. sicrhau tryloywder;
    ii. sicrhau tegwch;
    iii. sicrhau bod modd gwirio cydymffurfiaeth; a
    iv. rheoli gwrthdaro buddiannau

38. **Tabl 1 – darpariaethau yn y Rheoliadau i fodloni gofynion adran 10A (5) o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006:**

| Adran o'r Ddeddf | Rheoliad | Crynodeb o'r diben |
|---|---|---|
| Adran 10A (3) (a) a (b) | Rhan 1, rheoliad 5(b) | Mae'n nodi bod rhaid i awdurdodau perthnasol weithredu'n dryloyw, yn deg ac yn gymesur wrth ymgymryd â gweithgareddau caffael o dan y Rheoliadau ar gyfer gwasanaethau iechyd perthnasol. |
| Adran 10A (3) (d) | Rhan 4, rheoliad 27 | Mae'n nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol eu cymryd i sicrhau bod mesurau priodol ar waith i atal, nodi ac unioni'n effeithiol wrthdaro buddiannau sy'n codi wrth gynnal prosesau caffael o dan y Rheoliadau hyn. |
| Adran 10A (3)(c) a (d) | Rhan 5, rheoliad 30 | Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol sicrhau bod mesurau priodol ar waith i gadw cofnodion o gontractau a ddyfarnwyd i ddarparwyr, y broses gwneud penderfyniadau a ddilynwyd, y rhesymau dros benderfyniadau a wnaed o dan y Rheoliadau a sut y rheolwyd unrhyw wrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau posibl. |
| Adran 10A (3) (a) (c) a (d) | Rhan 5, rheoliadau 31 a 32 | Mae'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol ei darparu i'r cyhoedd. Mae'n nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol eu cymryd i ddangos sut y caiff cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau ei monitro, a gofynion i gyhoeddi ar-lein, ar wefan sydd ar gael i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim, adroddiad blynyddol o ganlyniadau'r gwaith monitro hwnnw, gan gynnwys gwybodaeth am sut yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth. |

## RHAN 2

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## Crynodeb

39. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) wedi'i gwblhau ar gyfer y Rheoliadau ac mae wedi'i nodi isod yn y bennod hon. Mae'n cyflwyno'r amcangyfrif gorau o gostau a manteision y Rheoliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael.

40. Bu'n rhaid gwneud cyfres o ragdybiaethau er mwyn cwblhau'r cyfrifiadau gan nad oedd digon o ddata ar gael; lle mae hyn yn wir, mae wedi'i esbonio yn naratif yr RIA. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gostau yn yr RIA wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

41. Mae'r RIA hwn yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael ym mis Ebrill 2024 ac mae'n cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd rhwng **mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2026**. Dewiswyd y cyfnod hwn i gynnwys gweithgarwch sy'n ymwneud â gweithredu'r gyfundrefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd. Felly, bydd y gwerthusiad yn ystyried gweithgarwch sydd wedi'i gynnal ers cyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Ebrill 2024 ac mae'n cynnwys gweithgarwch i baratoi'r Rheoliadau, y Canllawiau Statudol a'r hyfforddiant i randdeiliaid cyn y dyddiad dod i rym ym mis Chwefror 2025. Bydd estyn y cyfnod gwerthuso tan fis Mawrth 2026 yn ystyried unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r gyfundrefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd, gofynion hyfforddi parhaus ac unrhyw ddiweddariadau i'r Canllawiau Statudol a'r deunyddiau ategol dros y cyfnod llawn o 2 flynedd.

## Cyflwyniad

42. Mae pwerau Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i'r gyfundrefn sy'n llywodraethu caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru wedi'u nodi yn Neddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 ('y Ddeddf'). Lluniwyd RIA fel rhan o'r ddogfennaeth i gefnogi gwaith craffu'r Senedd ar y Ddeddf ac, fel y cyfryw, mae'r RIA hwn yn adeiladu ar yr wybodaeth a ddarperir yn yr asesiad hwnnw.

43. Mae'r costau a ddarperir ar gyfer amser staff Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Rheoliadau. Mae'r rhain yn gostau cyfle yn hytrach na gwariant ariannol ychwanegol.

44. Bydd angen i'r costau a ddarperir ar gyfer awdurdodau perthnasol o dan Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 (sefydliadau GIG Cymru, awdurdodau lleol yng Nghymru) a'r darparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol gael eu hysgwyddo o dan y 3 opsiwn a gyflwynir. Mae'r rhain hefyd yn gostau cyfle yn hytrach na gwariant ariannol ychwanegol.

45. Ni fydd Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 ond yn gymwys i wasanaethau iechyd perthnasol a ddarperir fel rhan o'r GIG yng Nghymru (a chaffael nwyddau neu wasanaethau eraill pan fyddant yn gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd sy'n brif bwnc y caffaeliad). Ar yr un pryd, oherwydd y diwygiadau caffael cyhoeddus ehangach sy'n deillio o gyflwyno Deddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU, bydd angen i 'awdurdodau contractio' (fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Caffael 2023), sydd hefyd wedi'u rhestru fel awdurdodau perthnasol o dan Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024, addasu prosesau a gweithdrefnau i gydymffurfio â'r gyfundrefn reoleiddiol newydd o dan Ddeddf Caffael 2023 wrth gaffael 'nwyddau a gwasanaethau eraill'.

46. Felly, mae'r costau i GIG Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru o dan y 3 opsiwn a gyflwynir, sut bynnag, yn debygol o ddeillio o ganlyniad i newidiadau arfaethedig oherwydd y diwygiadau caffael cyhoeddus ehangach o dan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU.

47. Ni fydd y costau i GIG Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru o dan opsiynau 2 a 3 ond yn digwydd os bydd Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 yn cael eu gwneud, a bod cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd (CDD Cymru) yn dod i rym yng Nghymru.

48. Yn yr asesiad hwn, ystyriwyd costau ariannol y gellir eu meintioli fel a ganlyn:

a. **Costau staff gweinyddu deddfwriaethol** – costau staff Llywodraeth Cymru a GIG Cymru sy'n gysylltiedig â gweithredu polisi a gweinyddu deddfwriaethol, cyflwyno a hyfforddi ar gyfer y gyfundrefn/cyfundrefnau caffael newydd. Costau cyfle yw'r rhain.

b. **Costau ymgyfarwyddo** – y costau sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan staff awdurdodau perthnasol yn ymgyfarwyddo â rheoliadau newydd a gweithredu'r gyfundrefn/cyfundrefnau caffael newydd. Mae'r staff hyn wedi'u rhannu'n staff sydd angen trosolwg polisi cyffredinol o'r gyfundrefn/cyfundrefnau caffael newydd a gweithwyr proffesiynol/staff caffael y mae'n ofynnol iddynt fod â dealltwriaeth fanwl i weithredu a chynghori cydweithwyr ar y gyfundrefn newydd. Costau cyfle yw'r rhain hefyd.

49. Ystyriwyd costau na ellir eu meintioli fel a ganlyn:

a. **Costau newid gweithdrefnol i awdurdodau perthnasol** - y costau cyffredinol sy'n gysylltiedig ag awdurdodau perthnasol i addasu **prosesau a gweithdrefnau** i fodloni gofynion y gyfundrefn gaffael newydd ac yr ystyrir eu bod yn gostau gweithgareddau busnes fel arfer/costau cyfle.

Mae meintioli'r costau a/neu'r manteision o ran adnoddau staff i GIG Cymru ac awdurdodau lleol ar gyfer **newidiadau i arferion tendro fesul contract** yn anodd oherwydd diffyg data ynghylch nifer y contractau gwasanaethau iechyd GIG Cymru ac awdurdodau lleol y gallai fod angen eu tendro dros y cyfnod gwerthuso. Felly, yn yr asesiad hwn, mae amcangyfrif o gostau/manteision uniongyrchol o ran adnoddau staff i GIG Cymru ac awdurdodau lleol wedi'i gyfyngu i gostau ymgyfarwyddo â chyfundrefn

newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd unrhyw gynnydd mewn costau wedi'i gyfyngu i gostau adnoddau staff a chostau addasu prosesau tymor byr ar gyfer 'newid gweithdrefnol' mewn perthynas â staff GIG Cymru ac awdurdodau lleol yn sefydlu a gweithredu cyfundrefn/cyfundrefnau caffael newydd.

b. **Costau newid gweithdrefnol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd (busnesau a'r trydydd sector)** - ar gyfer darparwyr sy'n cymryd rhan mewn ymarferion tendro, mae'n anodd mesur unrhyw effaith o ran cost, oherwydd ystod a natur ymarferion caffael a chapasiti adnoddau, arbenigedd a gallu darparwyr unigol i ymateb i dendrau. Fodd bynnag, gwneir rhagdybiaeth na ddylai'r gost i ddarparwyr fod yn ormodol o gymharu â'r costau sydd eisoes ynghlwm wrth gymryd rhan yn y gyfundrefn caffael cyhoeddus bresennol (PCR 2015), neu gyfundrefnau caffael cyhoeddus sydd ar ddod (Deddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU). Mae hyn yn cael ei drafod ymhellach fel rhan o'r asesiad o gystadleuaeth.

c. **Costau swyddogaeth oruchwylio annibynnol** - yn gysylltiedig â sefydlu a gweithredu swyddogaeth oruchwylio annibynnol arbenigol ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Bydd y swyddogaeth yn cyflawni rôl wrth benderfynu ar sylwadau gan ddarparwyr ynghylch penderfyniadau caffael a wneir gan awdurdodau perthnasol yng Nghymru o dan CDD Cymru. Mae rôl a chylch gwaith y swyddogaeth yn cael eu pennu ar hyn o bryd felly ni allwn feintioli'r costau hyn ar hyn o bryd. Fel enghraifft, rydym wedi darparu manylion yn seiliedig ar asesiad DHSC o gostau ar gyfer gweithredu 'cyngor arbenigol annibynnol' ar gyfer eu CDD yn Lloegr (rheoliad 23 o Reoliadau CDD DHSC27).

50. Cwblhawyd asesiad effaith rheoleiddiol[28] i gyd-fynd â chyflwyno Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 DHSC i gefnogi gweithrediad yr CDD yn Lloegr, yn dilyn yr asesiad o effaith y mesurau craidd a gwblhawyd ar gyfer Deddf Iechyd a Gofal 2022, a oedd yn cynnwys adolygiad lefel uchel o'r effeithiau ar Ddethol Darparwyr a Dewis[29] a gweithrediad posibl y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr. Mae'r canfyddiadau o'r ddau asesiad effaith a luniwyd gan DHSC **yn debygol o fod yn debyg yng Nghymru o ystyried y tebygrwydd arfaethedig rhwng CDD DHSC yn Lloegr ac CDD Cymru.** O'r herwydd, ni ddisgwylir y bydd effaith y newidiadau arfaethedig yng Nghymru yn wahanol iawn i'r costau a'r effeithiau posibl a nodwyd gan DHSC ar gyfer gweithredu'r CDD yn Lloegr. O'r herwydd, lle mae bylchau mewn data penodol neu dystiolaeth benodol ar gyfer Cymru, mae'r costau a'r effeithiau amcangyfrifedig o asesiadau effaith rheoleiddiol DHSC wedi'u defnyddio a'u haddasu i roi darlun o'r effeithiau yng Nghymru.

51. Mae costau a manteision wedi'u hasesu dros gyfnod o ddwy flynedd o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2026. Mae'r cyfnod hwn yn cwmpasu datblygu a cham gweithredu cychwynnol

---

[27] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk)
[28] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk)
[29] Asesiad o Effaith Mesurau Craidd Dedddf Iechyd a Gofal 2022 (publishing.service.gov.uk) – Dethol Darparwyr a Dewis. t36.

CDD Cymru a chyfnod tymor byr o ‘ymgyfarwyddo’ ac addasu i brosesau a gweithdrefnau newydd.

**Opsiynau**

52. Mae pedwar opsiwn wedi’u hystyried yn yr asesiad effaith hwn:

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 1** | **Gwneud dim -** cadw’r sefyllfa bresennol yng Nghymru, lle mae’r GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn caffael gwasanaethau iechyd perthnasol drwy ddefnyddio cyfundrefn(au) Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015/Deddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU. Bydd CDD DHSC yn cael ei defnyddio i ymgymryd â chaffael y gwasanaethau iechyd hyn yn Lloegr. |
| **Opsiwn 2** (yr opsiwn a ffefrir) | **Cyflwyno rheoliadau -** gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd perthnasol yng Nghymru (CDD Cymru) – i’w defnyddio gan awdurdodau perthnasol yng Nghymru (GIG Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru). |
| **Opsiwn 3** | **Cyflwyno rheoliadau -** gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru (CDD Cymru) - <u>wedi’i chyfyngu i’w defnyddio gan GIG Cymru yn unig</u>, sy’n golygu bod caffael gwasanaethau iechyd perthnasol gan **awdurdodau lleol** yng Nghymru yn parhau o dan gyfundrefn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015/Deddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU. |
| **Opsiwn 4** | **Opsiwn anrheoleiddiol –** newidiadau i gyfundrefnau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru drwy ganllawiau anstatudol. |

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

**Disgrifiad**

53. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai rheoliadau’n cael eu gwneud i weithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru o dan CDD Cymru. Byddai hyn yn golygu y byddai caffael yr holl wasanaethau iechyd annibynnol yng Nghymru yn parhau o dan gwmpas PCR 2015 a’r diwygiadau a gyflwynir gan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau yn gyffredinol. Ni fyddai’r opsiwn hwn yn adfer ‘chwarae teg’ ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd rhwng Cymru a Lloegr, o ystyried y newidiadau sy’n cael eu cyflwyno fel rhan o’r CDD yn Lloegr.

54.Bydd dal i fod angen i gaffaelwyr a chomisiynwyr gwasanaethau iechyd yng Nghymru addasu eu prosesau caffael presennol, sy'n cael eu rheoleiddio o dan PCR 2015 ar hyn o bryd, i fodloni gofynion Deddf Caffael 2023.

55.Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyfnod pontio o 6 mis i hwyluso'r broses o symud o gyfundrefn bresennol PCR 2015 i'r gyfundrefn gaffael newydd o dan Ddeddf Caffael 2023.

56.Ni waeth a gyflwynir cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru ai peidio, bydd angen i gaffaelwyr a chomisiynwyr gwasanaethau iechyd yng Nghymru addasu gweithdrefnau caffael sefydledig a grëwyd o dan PCR 2015 a rhoi polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau newydd ar waith, a hyfforddi staff, er mwyn sicrhau bod ymarferion caffael yn cydymffurfio â gofynion Deddf Caffael 2023.

57.Mae risgiau 'gwneud dim' a pheidio â gweithredu cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru wedi'u nodi 1 o'r memorandwm esboniadol hwn. Crynhoir y prif risgiau fel a ganlyn:

i. aflunio'r platfform caffael gwasanaethau iechyd cyfochrog presennol rhwng Cymru a Lloegr;
ii. cyfyngu ar y gallu i gomisiynu gwasanaethau iechyd ar y cyd rhwng GIG Lloegr a GIG Cymru, a manteision cysylltiedig arbedion maint ariannol ac adnoddau;
iii. cyfyngu ar awydd cyflenwyr i gyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru o ganlyniad i orfod cymryd rhan mewn gwahanol gyfundrefnau rheoleiddiol caffael ac ymarferion tendro cystadleuol; a fydd o bosibl yn gwneud marchnad gwasanaethau iechyd Cymru yn gynnig busnes anneniadol. Gallai hyn gynyddu costau a phwysau adnoddau i GIG Cymru wrth gaffael a denu cyflenwyr o ansawdd uchel yn y dyfodol.

58.Gall yr opsiwn hwn hefyd arwain at golli cyfleoedd, megis:

i. methu â sicrhau chwarae teg o ran caffael gwasanaethau iechyd rhwng Cymru a Lloegr.
ii. llai o gyfle i gynyddu gwerth cymdeithasol a manteision yr economi sylfaenol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru - bydd y gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru yn cynnig dull mwy hyblyg, llai biwrocrataidd a ddylai fod o fudd i fentrau bach a chanolig eu maint a sefydliadau'r trydydd sector sy'n aml yn ystyried ymarferion caffael cystadleuol yn rhwystr i'r farchnad.
iii. Llai o gydweithio hirdymor â chyflenwyr – o bosibl ar draul y claf pan fo cysylltiadau rhwng cleifion a darparwyr yn gweithio'n dda a gwasanaeth da yn cael ei ddarparu.
iv. colli cyfle i uwchsgilio gweithwyr caffael proffesiynol yng Nghymru - mae Llywodraeth Cymru wedi cael mynediad at ddeunyddiau hyfforddi a datblygu am ddim gan GIG Lloegr. Cafodd y deunyddiau hyn eu creu gan DHSC a GIG Lloegr a'u darparu am ddim i Lywodraeth Cymru, er mwyn addasu ac adlewyrchu sail weithredol y gyfundrefn/cyfundrefnau caffael newydd yng Nghymru a galluogi creu cynhyrchion dysgu a datblygu pwrpasol i 'Awdurdodau Contractio Cymru'30 ac awdurdodau

[30] Fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Caffael 2023

perthnasol eu defnyddio. Pe bai Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu'r deunyddiau hyn 'o'r dechrau', byddai hyn yn golygu rhoi baich amser ac adnoddau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru a'r goblygiadau ariannol cysylltiedig.

### Costau

59. Opsiwn 1 yw'r opsiwn sylfaenol ac, o'r herwydd, mae'r canlynol yn grynodeb o'r costau sylfaenol, ac fe'i cyflwynir i alluogi cymhariaeth â'r costau o dan yr opsiynau eraill.

60. Mae'r costau o dan opsiwn 1 ar gyfer cyflwyno'r gyfundrefn caffael cyhoeddus newydd o dan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU yn unig a bydd rhaid eu talu ni waeth a yw rheoliadau'n cael eu cyflwyno i weithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru ai peidio.

61. O dan yr opsiwn hwn, nid oes unrhyw ddyletswyddau gweinyddol uniongyrchol ar gyfer staff Polisi Iechyd Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu'r gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, mae costau'n gysylltiedig â staff y Gyfarwyddiaeth Caffael Corfforaethol o fewn Llywodraeth Cymru - costau cyfle yw'r costau hyn a byddant yn cael eu talu o'r cyllidebau presennol.

### Costau gweinyddu ac ymgyfarwyddo (gan gynnwys hyfforddiant)

62. O dan yr opsiwn hwn, mae costau gweinyddu i Lywodraeth Cymru wedi'u cyfyngu i gostau a ysgwyddir wrth baratoi dogfennau hyfforddi a dogfennau canllaw ar gyfer y gyfundrefn gaffael newydd o dan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU.

63. O dan yr opsiwn hwn, bydd costau ymgyfarwyddo ar gyfer awdurdodau perthnasol yng Nghymru yn cael eu cyfyngu i addasu i'r gyfundrefn caffael cyhoeddus newydd o dan y diwygiadau o ganlyniad i Ddeddf Caffael 2023, gan na fydd cyfundrefn ar wahân ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Bydd ymgyfarwyddo â'r gyfundrefn caffael cyhoeddus o dan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU yn cynnwys nifer o fentrau hyfforddi, wedi'u hanelu at wahanol gynulleidfaoedd a lefelau dealltwriaeth.

64. Mae amcangyfrif o gostau'r gyfundrefn caffael cyhoeddus newydd o dan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU wedi'i gynnwys yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024[31]. Mae'r gost a'r manteision a amlinellir yn yr asesiad effaith hwnnw wedi'u cynnwys yn yr opsiwn hwn i ddangos y costau i Lywodraeth Cymru o weithredu'r gyfundrefn caffael cyhoeddus newydd a'r costau i 'Awdurdodau Contractio Cymru' ar gyfer ymgyfarwyddo ac uwchsgilio i ddeall elfennau gweithredol y gyfundrefn gaffael newydd a gwneud y newidiadau gweithdrefnol cysylltiedig.

65. Dylid nodi bod 'Awdurdodau Contractio Cymru' yn cynnwys **holl awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus**, gan gynnwys awdurdodau perthnasol (fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 - h.y. byrddau iechyd, ymddiriedolaethau iechyd, ymddiriedolaethau iechyd arbennig ac awdurdodau lleol). **Nid oes modd rhannu'r**

[31] Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 (senedd.cymru)

**costau ar gyfer awdurdodau perthnasol yn unig** (fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2025), o dan yr opsiwn hwn.

Costau gweinyddu i Lywodraeth Cymru

66. Mae'r costau canlynol wedi'u cymryd o'r asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024.[32]

67. Cafodd '**gweithgareddau rhannu gwybodaeth'** a oedd â'r nod o ddarparu trosolwg lefel uchel o'r gyfundrefn gaffael o dan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU eu harwain gan Lywodraeth y DU gyda'r costau lleiaf posibl i Lywodraeth Cymru, a amcangyfrifir eu bod yn **£84.80**. Mae'r rhain yn gostau suddedig.

68. Lluniwyd **'e-ddysgu'** ar gyfer ymarferwyr caffael a masnachol perthnasol o 'Awdurdodau Contractio Cymru'. Mae'r RIA ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 yn datgan am yr e-ddysgu: *'bydd hyn ar gyfer ymarferwyr medrus, ac fe'i cynlluniwyd i ddarparu sylfaen ym mhob elfen o'r Rheoliadau caffael newydd. Bydd mynediad atynt ar safle Coleg Masnachol Llywodraeth y DU a byddant yn hunan-dywysedig, a fydd yn cynnwys 10 modiwl o ryw 1 awr y sesiwn'*. Mae hon yn rhaglen hyfforddi ledled y DU dan arweiniad Llywodraeth y DU, fel rhan o uwchsgilio 'awdurdodau contractio' yng Nghymru a Lloegr ar yr agweddau gweithredol sylfaenol ar y gyfundrefn gaffael newydd o dan Ddeddf Caffael 2023. **Nid oes cost i Lywodraeth Cymru** am ddatblygu'r 10 modiwl e-ddysgu sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth y DU.

69. Bydd Llywodraeth Cymru yn ychwanegu 6 modiwl at yr 'e-ddysgu' a arweinir gan Lywodraeth y DU. Bydd y modiwlau ychwanegol hyn yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth ar gyfer 'Awdurdodau Contractio Cymru' ac wedi'u hanelu'n benodol at ymarferwyr caffael a masnachol Cymru, a phersonél eraill sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yn rheolaidd neu sydd angen dealltwriaeth ddyfnach o dirwedd ddeddfwriaethol caffael yng Nghymru.

70. Mae'r RIA ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 yn amcangyfrif mai'r gost i Lywodraeth Cymru am ddatblygu a chyflwyno'r chwe modiwl 'e-ddysgu' yw ychydig dros **£9,000,** a gyfrifir fel a ganlyn yn Nhabl 2: Byddai'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo yn 2024-25.

71. **Tabl 2 - Amcangyfrif o gostau datblygu e-ddysgu i Lywodraeth Cymru:**

| **Nifer y modiwlau e-ddysgu** | **Amser i greu pob modiwl** | **Cyflog canolrifol yr awr[33]** | **Cyfanswm cost y ddogfen** | **Cyfanswm y gost** |
|---|---|---|---|---|
| 6 | 74 awr | £21.20 | £1,568.80 | £9,412.80 |

[32] Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 (senedd.cymru)
[33] Daw'r cyflog canolrifol o ddata'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) ar gyfer "Prynwr a Swyddog Caffael" 2022, sy'n nodi bod cyflog canolrifol yr awr yn £16.30. Yn ogystal â 30% o argostau.

72. Cynigir hyfforddiant **‘archwiliad dwfn’** yn ogystal ag e-ddysgu ar gyfer y gyfundrefn newydd o dan Reoliadau Caffael (Cymru) 2024 sydd wedi’i anelu at ymarferwyr caffael arbenigol, dan arweiniad Llywodraeth y DU a **heb unrhyw gost i Lywodraeth Cymru**. Bydd yr hyfforddiant hwn yn seiliedig ar ddosbarth rhithwir rhyngweithiol dan arweiniad hyfforddwr mewn grwpiau bach ac fe’i cyflwynir yn ddwyieithog.

73. O’r herwydd, er bod Llywodraeth y DU yn talu costau’r hyfforddiant ‘archwiliad dwfn’ yn Saesneg, bydd angen i Lywodraeth Cymru dalu costau datblygu a darparu hyfforddiant Cymraeg i unigolion mewn ‘Awdurdodau Contractio Cymreig’ sy’n mynegi eu bod am dderbyn hyfforddiant ‘archwiliad dwfn’ drwy gyfrwng y Gymraeg. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio tua **£17,000 i Lywodraeth Cymru yn 2024/25**.

74. Bydd dysgu a datblygu’r gyfundrefn caffael cyhoeddus newydd yn cael eu cefnogi gan ganllawiau ysgrifenedig dwyieithog, gyda chostau cynhyrchu’n cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir y byddant yn costio **£18,000** yn 2024/25.

Costau ymgyfarwyddo i ‘Awdurdodau Contractio Cymru’

75. Mae’r RIA ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 yn amcangyfrif mai’r gost i ‘Awdurdodau Contractio Cymru’ ar gyfer ymgymryd â’r hyfforddiant **‘e-ddysgu’** yw **£662,000**, a gyfrifir fel a ganlyn yn Nhabl 3.

76. **Tabl 3 - Amcangyfrif o gost adnoddau i ‘Awdurdodau Contractio Cymru’ fynychu e-ddysgu:**

| Nifer y modiwlau e-ddysgu (10 Llywodraeth y DU a 6 Llywodraeth Cymru) | Cyfanswm yr amser ar gyfer cwblhau (1 awr y modiwl) | Nifer yr hyfforddeion | Cyflog canolrifol yr awr | Cyfanswm cost fesul hyfforddai i gwblhau pob modiwl | Cyfanswm y gost |
|---|---|---|---|---|---|
| 16 | 16 awr | 1952 | £21.20 | £339.20 | **£662,118.40** |

77. Y gost adnoddau i ‘Awdurdodau Contractio Cymru’ ymgymryd â’r hyfforddiant **‘archwiliad dwfn’** yw **tua £360,000**, a gyfrifir fel a ganlyn yn Nhabl 4.

78. **Tabl 4 - Amcangyfrif o gostau adnoddau i ‘Awdurdodau Contractio Cymru’ fynychu hyfforddiant ‘archwiliad dwfn’ yn Gymraeg:**

| Amser i gwblhau Archwiliad Dwfn | Nifer yr hyfforddeion | Cyflog canolrifol yr awr | Cyfanswm cost fesul hyfforddai | Cyfanswm y gost |
|---|---|---|---|---|
| 20 awr | 850 | £21.20 | £424.00 | **£360,400** |

79.Nid oes modd rhannu'n glir y costau yn Nhabl 4 ar gyfer staff a gyflogir gan awdurdodau perthnasol yn unig (fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024). O dan Opsiwn 2, amcangyfrifir y bydd tua 141 o staff a gyflogir gan awdurdodau perthnasol angen 'hyfforddiant ymarferwyr' caffael. Felly, darperir y ffigurau yn Nhabl 4 i ddangos y bydd yr opsiwn 'gwneud dim' yn arwain at gost, ni waeth a fydd cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn cael ei gweithredu.

**Costau newid gweithdrefnol**

80.Nid yw'r costau ar gyfer newidiadau gweithdrefnol i 'Awdurdodau Contractio Cymru' (ac awdurdodau perthnasol yn eu tro) gydymffurfio â'r gyfundrefn caffael cyhoeddus newydd wedi'u cynnwys yn yr RIA ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024. Fodd bynnag, mae'r RIA yn cydnabod y bydd cost uniongyrchol i 'Awdurdodau Contractio Cymru' (ac awdurdodau perthnasol yn eu tro) yn sgil cyhoeddi hysbysiadau caffael ychwanegol ar 'GwerthwchiGymru' o dan y gyfundrefn newydd.

81.Mae Awdurdodau Contractio Cymru (ac awdurdodau perthnasol yn eu tro) eisoes yn cyhoeddi hysbysiadau caffael ar blatfform GwerthwchiGymru; felly, dim ond y gofynion newydd o ran hysbysiadau a fydd yn arwain at amser a chost ychwanegol. Mae'n anodd asesu'r amserlenni a'r costau hyn gan nad yw'n hysbys faint o hysbysiadau newydd fydd yn cael eu cyhoeddi a pha mor hir y bydd yn ei gymryd i boblogi'r hysbysiadau newydd hyn. Felly, nid yw'r RIA ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 yn cynnwys costau ar gyfer yr elfen hon.

82.Mae'r RIA ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 hefyd yn cydnabod ei bod yn anodd amcangyfrif y costau i 'Awdurdodau Contractio Cymru' (ac awdurdodau perthnasol yn eu tro) wneud newidiadau i weithdrefnau mewnol / rheolau sefydlog; gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig ag ailddrafftio a diweddaru polisïau, gweithdrefnau, templedi, cyfieithu a phrosesau cymeradwyo. Bydd y gost i 'Awdurdodau Contractio Cymru' unigol (ac awdurdodau perthnasol yn eu tro) yn wahanol, yn dibynnu ar faint a gallu adnoddau sefydliadau perthnasol. Felly, nid yw'r RIA ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 yn cynnwys costau ar gyfer yr elfen hon.

83.Nid yw costau mewn perthynas â sefydlu'r 'swyddogaeth oruchwylio annibynnol' wedi'u cynnwys yn yr RIA ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024. Fodd bynnag, mae angen sefydlu swyddogaeth oruchwylio i dderbyn sylwadau o dan gyfundrefn Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024, a dyfarnu arnynt; nid yw'r manylion a'r costau sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth hon yn hysbys ar hyn o bryd.

84.Nid yw asesiad o'r costau i fusnes sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 wedi'i gynnwys yn yr RIA ar gyfer y rheoliadau hynny, felly nid yw wedi'i gynnwys yn yr asesiad hwn. Fodd bynnag, mae'r RIA ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 yn cynnwys effeithiau/manteision na ellir eu meintioli i fusnesau, sydd wedi'u cynnwys yn yr adran ganlynol.

**Manteision/Anfanteision**

85. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai rheoliadau'n cael eu gwneud i weithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru. Byddai hyn yn golygu y byddai caffael yr holl wasanaethau iechyd yng Nghymru yn parhau o dan PCR 2015 a'r diwygiadau o dan Ddeddf Caffael Llywodraeth y DU ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau yn y DU yn gyffredinol.

86. Bydd hyn yn arwain at gael dwy gyfundrefn caffael gwasanaethau gofal iechyd ar wahân ar waith yng Nghymru a Lloegr a fyddai'n arwain at rai canlyniadau ymarferol anfwriadol ar gyfer caffael a chomisiynu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol (fel yr amlinellir yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol).

87. Mae'r RIA ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 yn nodi nifer o fanteision ac effeithiau na ellir eu meintioli ar gyfer busnesau o ganlyniad i weithredu'r gyfundrefn caffael cyhoeddus newydd o dan Ddeddf Caffael Llywodraeth y DU. Mae'r rhain yn cynnwys:

i. ei gwneud yn haws i fusnesau gontractio gyda'r sector cyhoeddus drwy leihau a dileu rhwystrau i fentrau bach a chanolig eu maint o Gymru, a chreu rhagor o gyfleoedd cynnig cystadleuol ar eu cyfer;
ii. darparu cysondeb i gyflenwyr gan sicrhau bod busnes trawsffiniol â Lloegr yn gallu parhau heb ddryswch;
iii. gwell telerau talu ar gyfer prif gontractwyr y bydd angen iddynt raeadru i fusnesau llai mewn cadwyni cyflenwi;
iv. sicrhau bod 'Awdurdodau Contractio Cymru' yn rhoi sylw dyladwy i rwystrau penodol sy'n wynebu mentrau bach a chanolig eu maint, ac ystyried a oes modd dileu neu leihau'r rhwystrau hynny.

88. Yn ogystal â'r uchod, dim ond fel rhan o Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU y bydd angen i awdurdodau perthnasol (fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024) weithredu newidiadau ac ni fydd angen iddynt weithredu newidiadau i gaffael gwasanaethau iechyd. Rhagwelir y bydd gweithredu un gyfundrefn caffael cyhoeddus gyffredinol yn arwain at fanteision tymor byr o ran adnoddau i awdurdodau perthnasol, gan mai dim ond un set o gostau newidiadau gweithdrefnol ac ymgyfarwyddo fydd ei hangen.

89. I'r gwrthwyneb, bydd cyfundrefn Deddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i 'Awdurdodau Contractio Cymru' (gan gynnwys awdurdodau perthnasol) gynnal rhagor o ymarferion tendro cystadleuol; unwaith eto, nid yw effaith cost ac adnoddau hyn yn hysbys, ond ni ddisgwylir iddo newid yn sylweddol o'r costau sy'n gysylltiedig â chyfundrefn caffael cyhoeddus bresennol PCR 2015.

**Yn gryno**

90. Ni fydd **Opsiwn 1** yn gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru; sy'n golygu y byddai caffael yr holl wasanaethau iechyd yng Nghymru yn parhau o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (PCR 2015) ac o dan Ddeddf Caffael Llywodraeth y DU ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau yn gyffredinol yn y DU. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn adfer 'chwarae teg' ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a Lloegr ond, yn hytrach, byddai'n arwain at gael dwy gyfundrefn wahanol ac ar wahân ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd ar waith rhwng Cymru a Lloegr; gall hyn arwain at y canlyniadau anfwriadol a amlinellir yn Rhan 1 o'r ddogfen hon. **Felly, nid opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffefrir.**

91. Mae amcangyfrif o'r costau ar gyfer opsiwn 1 wedi'u crynhoi yn **Atodiad A**.

**Opsiwn 2 – Cyflwyno rheoliadau a gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru – i'w defnyddio gan awdurdodau perthnasol (GIG Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru) (Yr opsiwn a ffefrir).**

**Disgrifiad**

92. O dan opsiwn 2, bydd rheoliadau'n cael eu cyflwyno a bydd cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn cael ei rhoi ar waith gan awdurdodau perthnasol yng Nghymru.

93. Bydd yr opsiwn hwn yn cynorthwyo i adfer 'chwarae teg' wrth gaffael ac yn lleihau'r risg i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru o ganlyniad i gyflwyno CDD DHSC yn Lloegr, fel yr amlinellir yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

94. Yn gyffredinol, mae nifer o feysydd lle mae polisi'n alinio rhwng y gyfundrefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd o dan Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 ac CDD DHSC yn Lloegr. Felly, rhagwelir y bydd costau, effeithiau a manteision gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn debyg i'r rhai a bennir gan DHSC yn Lloegr. Pan nad oes llawer o ddata ar gael i Gymru, neu os canfyddir bod yr wybodaeth a ddarperir yn RIA DHSC ar gyfer ei Chyfundrefn Dethol Darparwyr yn gallu cael ei hefelychu ar gyfer y sefyllfa yng Nghymru, mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr RIA hwn, gyda'r ffynhonnell.

**Costau**

Costau gweinyddu i Lywodraeth Cymru

95. O dan opsiwn 2, bydd costau gweinyddu uniongyrchol i staff Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu a gweithredu'r gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru. Bydd yr holl gostau a briodolir i Lywodraeth Cymru yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

96.Mae cost uniongyrchol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r opsiwn hwn. Mae'r gost weinyddol i staff yng nghyfarwyddiaeth caffael masnachol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r gyfundrefn newydd o dan Reoliadau Caffael (Cymru) 2024 yn cael sylw uchod yn opsiwn 1.

97.Felly, mae'r costau yn yr opsiwn hwn yn ychwanegol at y costau a amlinellir yn opsiwn 1 ac yn cynnwys costau gweinyddol ar gyfer gweithredu'r gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru. Mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr opsiwn hwn yn gostau cyfle yr eir iddynt

98.Nodir amcangyfrif gorau o'r costau hyn isod a disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2026 ac mae'n cynrychioli cost cyfle adnoddau staff presennol ac ni ddisgwylir iddynt arwain at wariant ariannol ychwanegol.

99.**Tabl 5:**

| **Rôl** | **Gradd** | **Costau staff blynyddol (£)**[34] | **Cyfwerth ag Amser Cyflawn** | **Cost y flwyddyn (£)** |
|---|---|---:|---:|---:|
| Dirprwy Gyfarwyddwr | Uwch Wasanaeth Sifil | 127,981 | 0.2 | 25,596 |
| Arweinydd polisi | G7 | 92,844 | 1 | 92,844 |
| Cymorth polisi | Swyddog Gweithredol Uwch | 57,059 | 1 | 57,059 |
| Cyfreithiwr (iechyd) | G7 | 92,844 | 0.5 | 92,844 |
| Cyfreithiwr (caffael) | G7 | 92,844 | 0.5 | 92,844 |

100.Amcangyfrifir bod y costau dros **gyfnod o ddwy flynedd** fel a ganlyn (wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf):

101.**Tabl 6:**

| | **Blwyddyn 1 (2024-25)** | **Blwyddyn 2 (2025-26)** | **Cyfanswm (£)** |
|---|---:|---:|---:|
| **Costau** | 268,000 | 268,000 | **536,000** |

[34] Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog ar gyfer bandiau cyflog staff y gwasanaeth sifil yn 2023-24. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol ac ati).

102.Mae'r costau staff Llywodraeth Cymru uchod yn cwmpasu'r cyfnod ar ôl cyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Ebrill 2024. Mae'n cynnwys gweithgarwch yn ymwneud â datblygu'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol fel rhan o'r paratoadau i osod y Rheoliadau yn y Senedd ym mis Ionawr 2025, cyn y dyddiad dod i rym arfaethedig ym mis Chwefror 2025. Mae hefyd yn cynnwys gweithredu deunyddiau hyfforddi ar gyfer rhanddeiliaid cyn y dyddiad dod i rym ac unrhyw ddiweddariadau datblygu polisi parhaus i'r Canllawiau Statudol, y deunyddiau ategol a'r gofynion hyfforddi parhaus dros gyfnod o ddwy flynedd.

103.Bydd costau parhaus hefyd i staff GIG Cymru sy'n gweithredu fel ymarferwyr caffael yn cynghori arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru - ni allwn amcangyfrif y costau hyn gan fod y cymorth hwn ar sail ad hoc a heb unrhyw gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

104.Felly, amcangyfrifir mai costau staff Llywodraeth Cymru ar gyfer Opsiwn 2 dros gyfnod o ddwy flynedd yw **£536,000** (wedi'u talgrynnu i'r fil agosaf).

**Costau ymgyfarwyddo (gan gynnwys hyfforddiant)**

105.Mae'r costau o dan opsiwn 2 yn gostau ar gyfer gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru i'w defnyddio gan awdurdodau perthnasol (GIG Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru). Mae'r costau hyn yn ychwanegol at gostau i 'awdurdodau perthnasol' ar gyfer cyflwyno'r gyfundrefn caffael cyhoeddus newydd o dan Reoliadau Caffael (Cymru) 2024 ar gyfer 'Awdurdodau Contractio Cymru'. O'r herwydd, mae'r costau i awdurdodau perthnasol o dan yr opsiwn hwn yn ychwanegol at gostau opsiwn 1, gan y bydd angen i awdurdodau perthnasol weithredu a chydymffurfio â'r ddwy gyfundrefn.

106.Yn yr un modd ag opsiwn 1, bydd costau i 'Awdurdodau Contractio Cymru' (ac awdurdodau perthnasol yn eu tro), yn dal i gynnwys cost ymgyfarwyddo a gweithredu o ganlyniad i Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU. Rhagdybir bod y gost hon yr un fath ag Opsiwn 1. Fodd bynnag, o dan yr opsiwn hwn, bydd angen i awdurdodau perthnasol hefyd weithredu cyfundrefn newydd, benodol i Gymru, ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd. Mae'r costau ymgyfarwyddo sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn cynnwys adnoddau staff i ymgysylltu â rhanddeiliaid, diwygio gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes, sefydlu canllawiau newydd ar y gyfundrefn gaffael, ymgyfarwyddo a hyfforddiant cysylltiedig.

Costau ymgyfarwyddo i GIG Cymru

107.Mae data wedi'i gael gan **GIG Cymru** i amcangyfrif y costau ymgyfarwyddo ar gyfer cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru. Mae hyn wedi'i rannu'n hyfforddiant staff fel a ganlyn:

i. **hyfforddiant polisi** – tua 2 awr o hyfforddiant polisi lefel uchel ar gyfer uwch reolwyr yn GIG Cymru y bydd angen iddynt fod â rhywfaint o ddealltwriaeth o'r gyfundrefn newydd, ond na fyddant yn cymhwyso'r gyfundrefn o ddydd i ddydd eu hunain; a

ii. **hyfforddiant ymarferwyr** – tua 3 awr o hyfforddiant manylach am brosesau'r gyfundrefn newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd ar gyfer ymarferwyr caffael proffesiynol a fydd yn gweithredu'r gyfundrefn o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, cyfrifwyd diwrnod llawn (7.5 awr) o amser unigolion i ystyried y gwaith darllen cefndir a'r codi ymwybyddiaeth y bydd gofyn i ymarferwyr ei wneud cyn y sesiwn hyfforddi.

108.Er mwyn cyfrifo'r costau cyflog ar gyfer unigolion yn GIG Cymru sy'n mynychu'r hyfforddiant ymgyfarwyddo, mae gwybodaeth am gyflog gros wedi'i defnyddio o RIA DHSC. Felly, mae'r ffigurau ar gyfer y gyfradd fesul awr ar gyfer unigolion sy'n derbyn hyfforddiant fel a ganlyn:

i. mae hyfforddiant polisi wedi'i osod ar £23.60[35] (yn seiliedig ar gostau cyflog uwch reolwyr mewn sefydliadau darparwyr – yr un fydd yr hyfforddiant lefel uchel 2 awr hwn â'r hyfforddiant a gynigir i unigolion mewn darparwyr preifat/darparwyr trydydd sector).
ii. mae hyfforddiant ymarferwyr wedi'i osod ar £29.28[36] (yn seiliedig ar ddata cyflog yn RIA DHSC ar gyfer ymarferydd caffael proffesiynol y GIG sy'n dod o fewn band 5 a band 8a - gwerthoedd 2023/24)

109.Mae Tabl 7 yn nodi'r amcangyfrif o gostau hyfforddiant ymgyfarwyddo ar gyfer GIG Cymru yn seiliedig ar niferoedd staff 'cyfartalog' (costau untro, 1 flwyddyn).

110.**Tabl 7:**

| **Math o hyfforddiant** | **Nifer yr oriau** | **Cyfradd gros yr awr** | **Amcangyfrif o niferoedd staff GIG Cymru** | **Cyfansymiau** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Hyfforddiant Polisi** | **2 awr** | **£23.67** | **433** | **£20,500** |
| **Hyfforddiant Ymarferwyr** | **7.5 awr** | **£29.28** | **276** | **£56,500** |
| **Cyfansymiau** | | | | **£77,000** |

111.Mae'r costau a nodir uchod yn gostau untro ac maent yn seiliedig ar niferoedd staff 'cyfartalog' a ddarparwyd gan GIG Cymru. Er mwyn amcangyfrif y niferoedd staff cyfartalog sydd angen hyfforddiant ymgyfarwyddo, rydym wedi cymryd ffigurau niferoedd staff gwirioneddol a ddarparwyd gan sawl bwrdd iechyd yng Nghymru fel llinell sylfaen ac wedi defnyddio methodoleg o adolygu'r amcangyfrifon poblogaeth fesul rhanbarth bwrdd iechyd[37] fel sail i amcangyfrif nifer y staff mewn byrddau iechyd lle nad oes gennym ddata ar niferoedd staff gwirioneddol GIG Cymru a fydd yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant.

[35] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk) – Asesiad Effaith Rheoleiddiol – tudalen 21/22 paragraff 49 – gwybodaeth am staff caffael allweddol mewn sefydliadau darparwyr (troednodyn 3)
[36] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk) – Asesiad Effaith Rheoleiddiol – tudalen 21, paragraff 48 – gwybodaeth am gostau cyflog i staff caffael y GIG.
[37] Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl bwrdd iechyd lleol a blwyddyn (llyw.cymru)

112.Mae'n debygol mai dim ond ym mlwyddyn 1 yr eir i gostau hyfforddiant ymgyfarwyddo i staff presennol GIG Cymru, ac fe'u hystyrir yn gostau cyfle. Ni ragwelir y bydd angen cyflwyno staff newydd o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfundrefn.

Costau ymgyfarwyddo i awdurdodau lleol

113.O dan rai amgylchiadau, efallai mai'r awdurdod lleol fydd yr awdurdod caffael arweiniol ar gyfer gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd. O'r herwydd, disgwylir i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ysgwyddo costau ymgyfarwyddo a gweithredu ar gyfer addasu i gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd.

114.Ni allwn gasglu data cywir ar nifer y staff mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a fydd angen hyfforddiant ymgyfarwyddo ar y gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd. I roi cyd-destun, ar gyfer eu rheoliadau ar gyfer y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr, gwnaeth RIA DHSC ragdybiaeth y bydd angen hyfforddiant ymgyfarwyddo ar 50 aelod o staff o bob awdurdod lleol yn Lloegr. Rydym o'r farn bod 50 aelod o staff fesul awdurdod lleol yng Nghymru yn ffigur rhy uchel i'w ddefnyddio fel cymharydd i Gymru (oherwydd maint a chyfansoddiad awdurdodau lleol yng Nghymru). Yn absenoldeb ffigurau staff gwirioneddol awdurdodau lleol, rydym wedi defnyddio'r un fethodoleg a ddefnyddir i amcangyfrif niferoedd staff byrddau iechyd sydd angen hyfforddiant a amlinellir ym mharagraffau 108 i 111, ac yn nhabl 7, ac wedi adolygu amcangyfrifon o'r boblogaeth leol fesul awdurdod lleol[38] i amcangyfrif nifer y staff awdurdodau lleol a fydd angen hyfforddiant ymgyfarwyddo.

115.Mae Tabl 8 yn nodi'r amcangyfrif o gostau hyfforddiant ymgyfarwyddo ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn seiliedig ar niferoedd staff 'cyfartalog' (costau untro, 1 flwyddyn).

116.**Tabl 8**

| Math o hyfforddiant | Cyfradd gros yr awr | Nifer yr oriau | Amcangyfrif o niferoedd staff awdurdodau lleol Cymru (cyfartaledd) | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Polisi** | **£23.67** | **2 awr** | **235** | **£11,100** |
| **Hyfforddiant Ymarferwyr** | **£29.28** | **7.5 awr** | **141** | **£28,900** |
| **Cyfansymiau** | | | | **£40,000** |

117.Mae'r costau a nodwyd uchod yn gostau untro sy'n debygol o gael eu hysgwyddo ym mlwyddyn 1 yn unig ac fe'u hystyrir yn gostau cyfle ar gyfer hyfforddi staff presennol

[38] Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)

awdurdodau lleol. Ni ragwelir y bydd angen cyflwyno staff newydd o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfundrefn.

Costau ymgyfarwyddo i ddarparwyr (busnesau a'r trydydd sector)

118.Yn ogystal â'r awdurdodau perthnasol y bydd angen iddynt weithredu'r gyfundrefn, bydd cost i ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd annibynnol ar ran y GIG yng Nghymru. Rhagwelir y bydd angen i ddarparwyr o'r fath ymgymryd â 'hyfforddiant polisi' lefel uchel (2 awr) i ddeall hanfodion y gyfundrefn newydd arfaethedig, ac y bydd darparwyr yn cyfeirio at y canllawiau ar y gyfundrefn newydd yn ôl yr angen, gan uwchsgilio fel rhan o weithgareddau cynllunio busnes arferol.

119.Gwnaeth DHSC ragdybiaeth yn ei RIA CDD y bydd angen uwchsgilio 4,647[39] o ddarparwyr[40] drwy 'hyfforddiant polisi' ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr, gyda 40 o staff caffael allweddol ym mhob sefydliad yn ymgymryd â hyfforddiant. Amcangyfrifwyd y bydd hyn yn costio £8.8m yn Lloegr.

120.Rhagwelir y bydd y senario ar gyfer darparwyr sy'n gweithredu CDD Cymru yn debyg i'r darlun a gyflwynir yn RIA DHSC, gan fod awdurdodau perthnasol yng Nghymru yn cyrchu'r un gronfa o ddarparwyr preifat â'r rhai yn Lloegr, ond ar raddfa lai gan y bydd nifer y contractau gyda darparwyr preifat yn llai na'r hyn a amcangyfrifir yn Lloegr. Rydym hefyd o'r farn y bydd nifer y staff caffael ym mhob sefydliad y byddai angen iddynt ymgymryd â hyfforddiant i ymgyfarwyddo â'r prosesau newydd yng Nghymru yn is na'r hyn a nodir yn asesiad effaith DHSC. Rydym yn amcangyfrif y bydd angen i rhwng 10 ac 20 o staff fesul sefydliad ymgymryd â 2 awr o hyfforddiant. Gan ragdybio'r un gost staff gyfartalog ag asesiad effaith DHSC, sef £23.67 yr awr (yn seiliedig ar ddata ASHE ar gyfer pobl a gyflogir mewn gweithgareddau iechyd dynol ac a addaswyd i adlewyrchu argostau) yn arwain at gost fesul darparwr o rhwng £475 a £950. Unwaith eto, costau cyfle fydd y rhain yn hytrach na gwariant ariannol ychwanegol i'r darparwyr. Er bod disgwyl i nifer y darparwyr preifat a darparwyr trydydd sector sy'n gweithredu yng Nghymru fod yn is na'r 4,647 a nodwyd yn asesiad effaith DHSC, nid yw'r nifer gwirioneddol yn hysbys ac, o'r herwydd, ni allwn amcangyfrif y costau ymgyfarwyddo cyfanredol i fusnesau a'r trydydd sector.

**Effeithiau na ellir eu meintioli**

**Costau newid gweithdrefnol**

121.Rydym yn rhag-weld y bydd cost uniongyrchol i awdurdodau perthnasol mewn perthynas ag addasu prosesau a gweithdrefnau i fodloni gofynion y gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys costau newidiadau mewn prosesau llywodraethu a gweithdrefnau ar gyfer awdurdodau perthnasol. Yn ystod yr ymarfer ymgynghori ar egwyddorion gweithredol y gyfundrefn newydd arfaethedig ar gyfer

---

[39] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk) - paragraff 49, troednodyn 4 - Mae hwn yn amcangyfrif yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Cyfundrefn Dethol Darparwyr DHSC. Dylid nodi bod DHSC wedi seilio eu hamcangyfrif ar nifer y darparwyr gan nad ydynt yn gallu rhoi cyfrif am yr holl weithgarwch contractio sy'n digwydd yn ymwneud â chaffael iechyd, a gall y ffigur hwn hefyd gynnwys risg o 'gyfrif dwbl' mewn perthynas â darparwyr, a all wneud cais am fwy nag un contract.
[40] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk) - paragraff 111

gwasanaethau iechyd, gofynnwyd cwestiynau i randdeiliaid am gost newid gweithdrefnol i awdurdodau perthnasol. Awgrymodd yr adborth er y bydd cost weinyddol i newid gweithdrefnau a chyfarwyddiadau gweithredu safonol, mae'n anodd ei meintioli. Bydd yr holl waith cysylltiedig i addasu gweithdrefnau yn cael ei wneud gan awdurdodau perthnasol fel rhan o'u gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac ystyrir mai bach iawn fydd baich ychwanegol hyn o ran arian ac adnoddau. Disgwylir i unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol fod yn gostau cyfle gan na ragwelir y bydd y gwaith yn arwain at gynnydd mewn niferoedd staff. Oherwydd absenoldeb gwybodaeth ddibynadwy i seilio amcangyfrif ar gyfer Cymru arni, ni chynhwyswyd unrhyw gostau yn yr RIA hwn i gyfrif am newid gweithdrefnol. Nid yw RIA DHSC chwaith wedi cynnwys unrhyw wybodaeth am gostau newid gweithdrefnol ar gyfer gweithredu'r CDD yn Lloegr.

122.Rhagwelir hefyd y bydd manteision i awdurdodau perthnasol yn sgil y gallu i ymgymryd â phrosesau dyfarniad uniongyrchol o dan y gyfundrefn newydd arfaethedig. Byddai disgwyl i'r arbedion cost hyn estyn y tu hwnt i'r cyfnod gwerthuso dwy flynedd. Dylai hyn arwain at leihau'r amser y mae staff awdurdodau perthnasol yn ei dreulio ar gynnal ymarferion tendro cystadleuol diangen. Mae RIA CDD DHSC wedi cynnwys cyfrifiadau ar leihau costau ar gyfer awdurdodau perthnasol[41], drwy ostyngiad mewn ymarferion tendro diangen; fodd bynnag, mae DHSC yn cydnabod bod y dystiolaeth a'r data ynghylch y cyfrifiad hwn yn gyfyngedig ac yn cynnwys lefel uchel o ansicrwydd, felly mae rhagdybiaethau wedi'u gwneud. Er mwyn rhoi syniad o'r arbedion cost posibl fesul contract, mae RIA DHSC yn amcangyfrif, ar gyfartaledd, fod cyfanswm cost (i gomisiynwyr a darparwyr gyda'i gilydd) cynnal proses gaffael dyfarniad uniongyrchol ychydig dros £30,000 yn is na chyfanswm cost proses gaffael agored. Bydd arbedion cost yng Nghymru yn llai na hyn os yw gwerthoedd contract cyfartalog yn is nag yn Lloegr (gan y rhagdybir bod costau caffael yn cynrychioli canran o werth cyffredinol y contract). Serch hynny, mae'r amcangyfrif hwn yn dal i roi syniad o faint posibl yr arbedion cost ar gyfer pob contract y gellir eu cynhyrchu drwy ddyfarniad uniongyrchol yn hytrach na chystadleuaeth agored. Nid yw data ar niferoedd contractau, gwerthoedd contract cyfartalog a'r llwybr caffael a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer pob contract ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd a gomisiynir yng Nghymru. O'r herwydd, nid ydym yn gallu meintioli'r arbedion cost cyfanredol ar gyfer Cymru.

### Swyddogaeth oruchwylio annibynnol

123.Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo cost uniongyrchol mewn perthynas â sefydlu a gweithredu swyddogaeth oruchwylio annibynnol i dderbyn sylwadau cyflenwyr mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir o dan y gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd, a dyfarnu ar y sylwadau hynny.

124.Mae GIG Lloegr wedi sefydlu panel annibynnol dewis cleifion a chaffael sef y swyddogaeth oruchwylio annibynnol i adolygu penderfyniadau a wneir o dan yr CDD yn Lloegr. Mae'r panel hwn yn cynnwys cadeirydd annibynnol a nifer o aelodau panel. Mae cylch gwaith y panel yn ddeublyg[42] – yn gyntaf, adolygu sylwadau gan ddarparwyr ar

---

[41] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk) - tudalen 32 paragraffau 99-107 a thudalen 38 tabl 16

[42] Cyfundrefn Dethol Darparwyr y GIG – Panel annibynnol dewis cleifion a chaffael

benderfyniadau ynghylch cyflenwyr a wneir gan awdurdodau perthnasol o dan yr CDD, ac yn ail, adolygu sylwadau mewn perthynas â 'Dewis Cleifion', lle gall cleifion wneud sylwadau pan fo hawliau cyfreithiol i ddewis darparwyr yn gymwys[43].

125. Roedd DHSC wedi cynnwys amcangyfrif o gostau ar gyfer sefydlu swyddogaeth oruchwylio annibynnol yn Lloegr o fewn ei RIA. Mae'r costau a gynhwysir yn seiliedig ar weithredu paneli annibynnol blaenorol sydd wedi ymgymryd â rolau tebyg (e.e. Panel Cydweithredu a Chystadleuaeth GIG Lloegr). Pwysleisir yn RIA DHSC mai amcangyfrifon yw'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrifiadau DHSC, felly mae ganddynt lefel uchel o ansicrwydd.

126. I wneud cymhariaeth, mae opsiwn 2 o'r RIA hwn yn debyg i opsiwn 2 o RIA DHSC lle amcangyfrifwyd y bydd costau sefydlu a gweithredu panel adolygu annibynnol CDD yn Lloegr yn amrywio rhwng £3.8m y flwyddyn (senario cost uchel) ac £1.3m y flwyddyn (senario cost isel)[44].

127. Bydd cyfansoddiad a chwmpas swyddogaeth oruchwylio annibynnol ar gyfer y gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn cael eu pennu dros y misoedd nesaf. Yng Nghymru, fodd bynnag, ni fydd yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â 'Dewis Cleifion' rheoleiddiol, gan nad ydym yn bwriadu alinio â DHSC yn hyn o beth gan nad oes deddfwriaeth gyfatebol sy'n llywodraethu 'Dewis Cleifion' yng Nghymru.

128. Am y rhesymau hyn, mae'n anodd defnyddio costau DHSC fel cymharydd cywir ar gyfer cost sefydlu'r panel adolygu annibynnol yng Nghymru.

129. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd arbedion maint yn deillio o gyfuno'r swyddogaeth oruchwylio annibynnol yng Nghymru i wneud dyfarniadau ar benderfyniadau gan 'Awdurdodau Contractio Cymru' fel rhan o'r diwygiadau caffael cyhoeddus ehangach o dan Reoliadau Caffael (Cymru) 2024.

130. Rhagwelir hefyd y bydd effaith ar awdurdodau perthnasol, wrth ymateb i'r panel adolygu annibynnol a pharatoi tystiolaeth ar ei gyfer. Nid oes data ar gael yng Nghymru i amcangyfrif nifer y sylwadau gan ddarparwyr i'r panel annibynnol a allai ddigwydd o ganlyniad i'r cynigion o dan opsiwn 2.

131. I grynhoi, mae union natur sut y bydd swyddogaeth oruchwylio annibynnol gyffredinol yn cael ei sefydlu ac yn gweithredu ar gyfer CDD Cymru dan ystyriaeth ar hyn o bryd, felly mae'n anodd darparu amcangyfrifon cost cywir ar gyfer yr elfen hon. Fodd bynnag, disgwylir y gallai fod cryn arbedion maint yn ariannol ac o ran adnoddau pe bai modd sefydlu a gweithredu un swyddogaeth oruchwylio ar gyfer y diwygiadau ehangach i gaffael cyhoeddus sydd ar y gweill yng Nghymru.

[43] Rheoliadau Bwrdd Comisiynu a Grwpiau Comisiynu Clinigol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfrifoldebau a Rheolau Sefydlog) 2012 (deddfwriaeth.gov.uk)
[44] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk) – tudalen 30-31

## **Manteision/Anfanteision**

Manteision

132. O dan yr opsiwn hwn, bydd cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yn cael ei gweithredu yng Nghymru, gan roi cyfle i adfer sefyllfa deg ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd rhwng Cymru a Lloegr a lliniaru yn erbyn rhai o’r canlyniadau ymarferol anfwriadol fel yr amlinellir yn Rhan 1 o’r Memorandwm Esboniadol hwn.

133. Gall manteision eraill gynnwys:

i. symud i ffwrdd o sefyllfa o ‘gystadleuaeth yn ddiofyn’ o dan y gyfundrefn gaffael bresennol (PCR 2015) a threfniadau cydweithio a chyflenwyr mwy hirdymor, mwy cynaliadwy rhwng awdurdodau perthnasol a darparwyr i gynnal a gwella gofal cleifion, a allai hefyd arwain at arbedion ariannol i’r trethdalwr;
ii. sicrwydd tymor hwy i gyflenwyr/darparwyr, gan ganiatáu i’r sector weithredu mwy o gynlluniau busnes tymor canolig i dymor hwy; cynyddu buddsoddiad a chynyddu cyfraddau cadw staff mewn sefydliadau o’r fath;
iii. gall dileu ymarferion tendro gorfodol arwain at lai o gostau gweinyddol i fusnesau a sefydliadau’r trydydd sector, gan wneud arbedion o ran costau ac adnoddau o ganlyniad i ostyngiad yn y niferoedd sy’n cymryd rhan mewn ymarferion tendro nad ydynt yn arwain at ddyfarnu contract;
iv. agor cyfleoedd yn y farchnad i fentrau bach a chanolig eu maint, busnesau’r Economi Sylfaenol a’r trydydd sector nad oes ganddynt o reidrwydd yr adnoddau i gymryd rhan mewn ymarferion tendro cystadleuol ar gyfer contractau nad ydynt yn arwain at ddyfarnu contract yn y pen draw. Ymdrinnir â hyn ymhellach yn yr asesiad o gystadleuaeth isod;
v. gall y newid yn y gyfundrefn gaffael a sefydlu panel adolygu annibynnol i alluogi cyflenwyr i herio penderfyniadau caffael leihau’r costau sy’n gysylltiedig ag ymgyfreitha ffurfiol drwy Adolygiad Barnwrol ar ôl dyfarnu contractau;
vi. gwell tryloywder, gan sicrhau bod awdurdodau perthnasol yn darparu’n gyhoeddus wybodaeth am brosesau caffael a phenderfyniadau sy’n cofnodi gwybodaeth am benderfyniadau a rheoli gwrthdaro buddiannau wrth wneud penderfyniadau;
vii. pan fo’n bosibl, bydd y darpariaethau ‘caffaeliad cymysg’ yn y gyfundrefn newydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i gaffael contractau sy’n cynnwys gwasanaeth iechyd a nwyddau a gwasanaethau ‘eraill’, ar yr amod mai nwyddau a gwasanaethau o’r fath yw’r ‘prif bwnc’ a’u bod yn ‘gysylltiedig’ â’r gwasanaeth iechyd;
viii. cynnwys ‘meini prawf allweddol’ y mae angen i awdurdodau perthnasol eu hystyried wrth wneud penderfyniadau caffael. Bydd hyn yn atgyfnerthu cymhwysiad amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru (er enghraifft, megis bodloni gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2022).

## Anfanteision

134. Gall anfanteision posibl gynnwys:

i. goblygiadau tymor byr o ran adnoddau i awdurdodau perthnasol sy'n addasu i ddwy gyfundrefn newydd. Er na allwn feintioli hyn, disgwylir y bydd arbedion cost ac adnoddau yn y tymor hwy o ganlyniad i beidio â gorfod cynnal ymarferion caffael diangen;
ii. dryswch tymor byr ymysg awdurdodau perthnasol ynghylch pa gyfundrefn gaffael y dylid ei defnyddio i sicrhau gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Bydd risgiau'n ymwneud â hyn yn cael eu lliniaru cyn belled ag y bo modd drwy weithredu pecyn hyfforddi cynhwysfawr dan arweiniad Llywodraeth Cymru ar elfennau gweithredol y gyfundrefn ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd a'r gyfundrefn caffael cyhoeddus ehangach o dan Reoliadau Caffael (Cymru) 2024;
iii. llai o gystadleuaeth o bosibl a llai o newydd-ddyfodiaid i'r farchnad (y gadwyn gyflenwi) ac a fydd hyn yn arwain at ganlyniadau tymor hwy ar gyfer cost gwasanaethau yng Nghymru. Nododd DHSC yn ei RIA ar gyfer y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr y gall sylfaen cyflenwyr lai (oherwydd diffyg newydd-ddyfodiaid i'r farchnad) arwain yn ei dro at hunanfodlonrwydd ymhlith darparwyr presennol gan nad yw eu contract o reidrwydd yn dibynnu ar ansawdd neu bris eu gwasanaeth os nad oes darparwyr gwasanaethau eraill45. Fodd bynnag, rhagdybir y bydd y risgiau'n cael eu lliniaru gan fwy o gydweithio tymor hwy â chyflenwyr, a fydd o fudd arbennig i gleifion, o dan amgylchiadau pan fo parhad gofal cleifion o'r pwys mwyaf, a phan fo'r darparwr presennol yn darparu lefel dda o wasanaeth.

## Yn gryno

135. Bydd **opsiwn 2** yn gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru; sy'n golygu bod rhaid i gaffael gwasanaethau iechyd perthnasol yng Nghymru gael ei gyflawni gan 'awdurdodau perthnasol' o dan y trefniadau newydd. Bydd angen i 'awdurdodau perthnasol' hefyd weithredu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (PCR 2015) a'r gyfundrefn newydd o dan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau cyffredinol. Byddai'r opsiwn hwn, fodd bynnag, yn sicrhau 'chwarae teg' ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd perthnasol ar ran y GIG yng Nghymru.

136. Mae amcangyfrif o'r costau ar gyfer opsiwn 2 wedi'u crynhoi yn **Atodiad A**.

[45] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk) – gweler paragraff 140

**Opsiwn 3 - Cyflwyno rheoliadau a gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru - wedi'i chyfyngu i'w defnyddio gan GIG Cymru yn unig.**

## Disgrifiad

137. O dan yr opsiwn hwn, bydd cyfundrefn newydd yn cael ei chyflwyno ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a fydd yn gymwys i GIG Cymru yn unig. Felly, ni fyddai'r gyfundrefn yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru, a fyddai'n parhau o dan gwmpas cyfundrefn PCR 2015 a chyfundrefn Deddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU wrth gaffael gwasanaethau iechyd.

138. Bydd yr opsiwn hwn yn cynorthwyo'n rhannol i adfer 'chwarae teg' o ran caffael o ganlyniad i'r diwygiadau sydd wedi'u cyflwyno gan DHSC o dan yr CDD yn Lloegr sy'n gymwys i GIG Lloegr ac awdurdodau lleol yn Lloegr. Gan na fydd yr opsiwn hwn yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru, ni fydd yn adfer yn llawn 'chwarae teg' o ran caffael nac yn lliniaru'r effeithiau fel y'u disgrifir yn opsiwn 2 uchod. Rhagwelir y bydd y costau, yr effeithiau a'r manteision amcangyfrifedig a nodwyd ar gyfer opsiwn 2 ar yr un lefel o gostau ar gyfer GIG Cymru, ond amcangyfrifir y bydd y costau a'r effeithiau ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn newid.

139. Er mwyn amcangyfrif y costau ar gyfer yr opsiwn hwn, mae'r fethodoleg, y costau a'r rhagdybiaethau o opsiwn 2 o'r RIA hwn wedi'u hefelychu yn opsiwn 3 a'u haddasu i eithrio awdurdodau lleol o dan yr opsiwn hwn. Yn yr un modd ag opsiwn 2, pan nad oes llawer o ddata ar gael i Gymru, neu y canfyddir y gellir echdynnu'r wybodaeth a ddarperir yn RIA DHSC ar gyfer ei Chyfundrefn Dethol Darparwyr ar gyfer y sefyllfa yng Nghymru, mae'r wybodaeth hon wedi'i defnyddio yn yr RIA hwn. Pan fo hyn yn wir, mae wedi'i nodi'n glir, gyda'r ffynhonnell.

## Costau

Costau gweinyddu i Lywodraeth Cymru

140. Fel o dan opsiwn 2, bydd opsiwn 3 yn arwain at gostau gweinyddu uniongyrchol i staff Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu a gweithredu'r gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru, yn ogystal â gweithredu'r gyfundrefn gaffael newydd o dan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024. Mae'r costau hyn yn cael eu cwmpasu uchod yn opsiwn 2 ac yn Nhablau 5 a 6 a pharagraffau 95 i 104. Bydd yr holl gostau i Lywodraeth Cymru yn cael eu talu o'r cyllidebau presennol.

141. Felly, amcangyfrifir mai costau staff Llywodraeth Cymru ar gyfer Opsiwn 3 dros gyfnod o 2 flynedd yw **£536,000** (wedi'u talgrynnu i'r fil agosaf), fel y nodir yn Nhabl 6.

**Costau ymgyfarwyddo (gan gynnwys hyfforddiant)**

142. Bydd y costau ymgyfarwyddo o dan opsiwn 3 ar gyfer gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru yn cael eu hysgwyddo **gan GIG Cymru a darparwyr yn unig**, gan na fydd y gyfundrefn yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru. Fel y nodwyd yn opsiwn 2, mae'r costau hyn yn ychwanegol at gostau GIG Cymru a busnesau ar gyfer cyflwyno'r gyfundrefn caffael cyhoeddus newydd o dan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024. O'r herwydd, mae'r costau i GIG Cymru o dan yr opsiwn hwn yn ychwanegol at y costau a nodir o dan opsiwn 1, gan y bydd angen i GIG Cymru weithredu a chydymffurfio â'r ddwy gyfundrefn.

Costau ymgyfarwyddo i GIG Cymru

143. Yn yr un modd ag opsiynau 1 a 2, mae costau ymgyfarwyddo sy'n gysylltiedig ag opsiwn 3 yn cynnwys costau ac adnoddau i staff y GIG ddiwygio'r gweithdrefnau presennol, ymgyfarwyddo a chwblhau hyfforddiant cysylltiedig.

144. Fel yn achos opsiwn 2, mae data wedi'i gael gan **GIG Cymru** i amcangyfrif costau ymgyfarwyddo â'r gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru. Mae hyn wedi'i rannu'n 'Hyfforddiant Polisi' a 'Hyfforddiant Ymarferwyr'.

145. Mae'r costau amcangyfrifedig i unigolion yn GIG Cymru sy'n mynychu'r hyfforddiant ymgyfarwyddo wedi'u cynnwys ym mharagraff 109 a Thabl 7 uchod.

146. Disgwylir i'r costau a nodwyd uchod fod yn gostau untro ac mae'n debygol yr eir iddynt ym mlwyddyn 1 (2024-25), ac fe'u hystyrir yn gostau cyfle i staff presennol GIG Cymru. Ni ragwelir y bydd angen cyflwyno staff newydd o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfundrefn.

Costau ymgyfarwyddo i awdurdodau lleol

147. Nid yw costau ymgyfarwyddo i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn gweithredu'r newidiadau i'r gyfundrefn wedi'u cynnwys o dan yr opsiwn hwn, gan na fydd y gyfundrefn yn gymwys i awdurdodau lleol.

Costau ymgyfarwyddo i ddarparwyr (busnesau a'r trydydd sector)

148. Fel yn achos opsiwn 2, bydd yr opsiwn hwn hefyd yn arwain at gost i ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd annibynnol ar ran y GIG yng Nghymru, a bydd yr un fath â'r gost a gyflwynir o dan opsiwn 2 ym mharagraffau 118 i 120.

**Effeithiau na ellir eu meintioli**

**Costau newid gweithdrefnol**

149. Rhagwelir cost uniongyrchol i GIG Cymru mewn perthynas ag addasu prosesau a gweithdrefnau i fodloni gofynion y gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd

yng Nghymru. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 121 uchod, costau cyfle fydd y rhain ac maent yn cynnwys costau newidiadau mewn prosesau llywodraethu a gweithdrefnau ar gyfer GIG Cymru. O'r herwydd, ni chynhwyswyd unrhyw gostau yn yr RIA hwn i gyfrif am newid gweithdrefnol.

150.Rhagwelir hefyd y bydd manteision o ran costau i GIG Cymru o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y prosesau dyfarniad uniongyrchol o dan y gyfundrefn newydd arfaethedig. Dylai hyn arwain at leihau'r amser y mae staff yn ei dreulio ar gynnal ymarferion tendro cystadleuol diangen. Mae RIA CDD DHSC wedi cynnwys cyfrifiadau ar leihau costau ar gyfer awdurdodau perthnasol[46], o ganlyniad i'r gostyngiad mewn ymarferion tendro diangen. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y dystiolaeth a'r data ynghylch yr arbedion amser ac adnoddau yn gyfyngedig, gyda lefel uchel o ansicrwydd a nifer o ragdybiaethau wedi'u gwneud. Rhagwelir y bydd yr arbedion cost a nodwyd gan DHSC yn gymwys i Gymru. Mae hyn yr un fath ag a ddisgrifir ym mharagraff 122 uchod ar gyfer opsiwn 2.

**Swyddogaeth oruchwylio annibynnol**

151.Fel y disgrifir yn opsiwn 2, rhagwelir cost uniongyrchol a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sefydlu a gweithredu swyddogaeth oruchwylio annibynnol i adolygu sylwadau mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir o dan y gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd. Disgrifir hyn yn llawn ym mharagraffau 123 i 131.

152.Mae union natur sut y bydd swyddogaeth oruchwylio annibynnol gyffredinol yn gweithredu yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, felly mae'n anodd darparu costau cywir ar gyfer yr elfen hon. Fodd bynnag, pe bai'n bosibl sefydlu a gweithredu swyddogaeth oruchwylio ar gyfer y tair cyfundrefn, disgwylir y gallai fod cyfleoedd i arbed arian ac adnoddau drwy arbedion maint.

153.Byddai'r gost sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yr un fath â'r rhai o dan opsiwn 2, ond byddai costau gweithredol yn lleihau gan mai dim ond ystyried sylwadau ynghylch penderfyniadau caffael a wneir gan GIG Cymru y bydd angen i'r swyddogaeth oruchwylio ei wneud. Bydd sylwadau ynghylch penderfyniadau caffael awdurdodau lleol yn cael eu hystyried gan swyddogaeth oruchwylio annibynnol Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024. O'r herwydd, ni fydd unrhyw gynnydd net mewn costau nac arbedion cost ar gyfer yr elfen hon.

**<u>Manteision/Anfanteision</u>**

154.O dan yr opsiwn hwn, bydd manteision y gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru yn debyg i'r rhai a amlinellir ym mharagraff 133 uchod a byddant yn cyfrannu at liniaru rhai o'r canlyniadau ymarferol anfwriadol fel yr amlinellir yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

[46] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk) - tudalen 32 paragraffau 99-107 a thudalen 38 tabl 16

155.Mae manteision posibl penodol yn cynnwys:

i. bydd eithrio awdurdodau lleol o’r gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yn golygu mai dim ond un gyfundrefn caffael cyhoeddus gyffredinol y bydd angen i awdurdodau lleol yng Nghymru ymgyfarwyddo a chydymffurfio â hi, gan arwain at lai o amser ac adnoddau staff i addasu i’r gyfundrefn gaffael newydd.

156.Mae anfanteision posibl penodol yn cynnwys:

i. ni fydd eithrio awdurdodau lleol o’r gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yn adfer chwarae teg i awdurdodau lleol yng Nghymru wrth gaffael gwasanaethau iechyd;
ii. ni fydd awdurdodau lleol yn elwa ar hyblygrwydd prosesau caffael y bydd y gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn ei gyflwyno. Gallai hyn arwain at wastraffu amser ac adnoddau yn gorfod cynnal ymarferion caffael diangen;
iii. llai o gyfle i gydweithio mwy ar draws y GIG ac awdurdodau lleol o ran cysondeb gofal cleifion;
iv. y posibilrwydd o lai o gystadleuaeth a llai o newydd-ddyfodiaid i’r maes cyflenwi, fel yr amlinellir yn opsiwn 2 uchod.

**<u>Yn gryno</u>**

157.Byddai **Opsiwn 3** yn gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru ond i’w defnyddio gan GIG Cymru yn unig – gan eithrio awdurdodau lleol yng Nghymru, a fydd yn parhau o dan gwmpas y gyfundrefn caffael cyhoeddus o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (PCR 2015) a chyfundrefn newydd o dan Ddeddf Caffael Llywodraeth y DU 2023 a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau cyffredinol. Felly, ni fyddai’r opsiwn hwn yn sicrhau ‘chwarae teg’ ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd perthnasol ar ran y GIG yng Nghymru i’r un graddau ag opsiwn 2.

158.Mae amcangyfrif o’r costau ar gyfer opsiwn 3 wedi’u crynhoi yn **Atodiad A**.

**<u>Opsiwn 4 - Opsiwn anrheoleiddiol – newidiadau i gyfundrefnau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru drwy ganllawiau anstatudol.</u>**

**Disgrifiad**

159. Deddfwriaeth gaffael sy’n rheoleiddio caffael nwyddau a gwasanaethau gan awdurdodau cyhoeddus yn y DU o fewn fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol diffiniedig a ffurfiol. Byddai canllawiau heb reoliadau i ategu newidiadau mewn caffael gwasanaethau iechyd yn aneffeithiol a byddai angen cyfeirio at y gyfundrefn PCR 2015 bresennol a’r diwygiadau

caffael arfaethedig o dan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU. Felly, er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol i hwyluso diwygio trefniadau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru, diwygiadau i'r fframwaith deddfwriaethol yw'r unig ffordd ymarferol o alluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau rheoleiddiol.

160. O'r herwydd, gwrthodwyd yr opsiwn hwn ac nid yw'r effeithiau o dan yr opsiwn hwn wedi'u hasesu.

**Casgliad**

161. I gloi, mae deddfwriaeth yn rheoleiddio caffael nwyddau a gwasanaethau gan awdurdodau cyhoeddus yn y DU o fewn fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol diffiniedig a ffurfiol. Felly, bydd angen i Weinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth i newid y ffordd y mae gwasanaethau iechyd y GIG yn cael eu caffael yng Nghymru.

162. Er y bydd y costau a amlinellir o dan Opsiwn 1 yn yr RIA hwn yn cael eu hysgwyddo o dan yr holl opsiynau dilynol, mae'r asesiad yn dangos bod y camau ychwanegol a nodir yn Opsiwn 2 yn darparu'r cyfleoedd mwyaf i gyflawni'r amcanion polisi allweddol ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru, sef lliniaru rhai o'r canlyniadau ymarferol anfwriadol ar gyfer caffael a chomisiynu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol o ganlyniad i newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr.

**Asesu'r gystadleuaeth**

163. Cynhaliwyd asesiad o'r gystadleuaeth i asesu effeithiau posibl gweithredu Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025.

164. **Tabl 9 -** Prawf hidlo'r gystadleuaeth - Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag ar eraill? | Byddai |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer y cwmnïau neu faint y cwmnïau? | Nac ydyw |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A gaiff y sector ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Na chaiff |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

165.Daw'r prawf hidlo i'r casgliad nad oes disgwyl i'r rheoliad a'r newidiadau arfaethedig i gyfundrefnau caffael gwasanaethau iechyd gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth. Mae crynodeb o'r canfyddiadau wedi'i gynnwys isod.

166.Mae'n debygol y bydd yr effeithiau ar gystadleuaeth yn sgil cyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn debyg i'r rhai a nodwyd gan DHSC o ganlyniad i gyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr. O'r herwydd, ystyriwyd elfennau o RIA DHSC ar gyfer eu CDD wrth asesu effeithiau ar gystadleuaeth, ac maent wedi'u cynnwys yn y canfyddiadau a nodir isod.

**A fyddai cost cyflwyno'r Rheoliadau yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy nag eraill?**

167.Mae'n anodd rhag-weld a fyddai cost cyflwyno'r Rheoliadau yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy nag eraill. Rhagwelir y gallai'r gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru gael effaith gymedrol ar fusnesau, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Bydd y gyfundrefn newydd yn ceisio symud i ffwrdd o sefyllfa o dendro cystadleuol diofyn a rhoi disgresiwn i awdurdodau perthnasol negodi contractau a dyfarnu contractau yn uniongyrchol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat, pan nad oes unrhyw fudd cyfiawnadwy i agor y broses i'r farchnad – h.y. o dan amgylchiadau pan fo darparwr presennol y gwasanaethau yn darparu'r gwerth ariannol gorau a'r gwerth gorau i gleifion, neu pan fo dewis cyfyngedig o un darparwr a ffefrir.

**A fydd y cynigion yn effeithio ar strwythur y farchnad ac yn newid nifer y cwmnïau neu faint y cwmnïau? A fyddai'r rheoliadau yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? A fyddai'r rheoliadau'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?**

168.Mae prinder data ar strwythur a maint presennol y farchnad yn golygu ei bod yn anodd rhag-weld sut y bydd y Rheoliadau'n effeithio ar strwythur a maint cwmnïau, felly ni ellir meintioli hyn. Fodd bynnag, gallai cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a'r gallu i awdurdodau perthnasol ddyfarnu contract yn uniongyrchol fod o fudd i fusnesau o ran lleihau amser a chostau staff sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno tendrau nad ydynt yn arwain at ddyfarnu contract. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fentrau bach a chanolig eu maint, busnesau llai a microfusnesau, a busnesau yn y trydydd sector, nad oes ganddynt adnoddau ariannol na staff na'r arbenigedd i lunio cynigion dro ar ôl tro a pheidio ag ennill gwaith. Gallai hyn gynnwys darparwyr gwasanaethau'r 'Economi

Sylfaenol' yng Nghymru – y mae llawer ohonynt yn fentrau bach a chanolig eu maint ac yn sefydliadau trydydd sector – gan ddarparu cyfle i sicrhau contractau heb orfod cyflwyno cynnig mewn ymarferion tendro cymhleth, costus a llafurus. Er enghraifft, mae DHSC wedi ceisio meintioli hyn yn yr RIA ar gyfer yr CDD yn Lloegr ac wedi canfod bod mentrau bach a chanolig eu maint yn wynebu costau sefydlog uwch fel cyfran o werth contract wrth baratoi a chyflwyno cynigion, boed yn llwyddiannus ai peidio[47], ac y bydd y gallu i fentrau bach a chanolig eu maint gael contractau wedi'u hadnewyddu o dan yr CDD yn Lloegr yn arbed costau a fydd yn cael mwy o effaith ar fentrau bach a chanolig eu maint o gymharu â darparwyr mwy.

### Effeithiau uniongyrchol ar gystadleuaeth

169.Mae'n anodd amcangyfrif yr effeithiau uniongyrchol ar gystadleuaeth a marchnadoedd yn sgil gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae DHSC wedi ystyried yr effeithiau ar gystadleuaeth yn eu RIA ar gyfer yr CDD yn Lloegr ac wedi dod i'r casgliad nad oes tystiolaeth glir ynghylch yr effaith ar gystadleuaeth yn y farchnad y mae'r CDD yn effeithio arni yn Lloegr[48]. Mae'n dod i'r casgliad na wnaethant ddod o hyd i wahaniaeth ystadegol arwyddocaol ym mhris contractau gyda chystadleuaeth a heb gystadleuaeth, ond ni allant fod yn sicr y bydd y sefyllfa hon yn parhau unwaith y bydd yr CDD yn cael ei gweithredu yn Lloegr. Gan ei bod yn anodd amcangyfrif hyn ar gyfer Cymru, disgwylir y bydd y sefyllfa hon yn debyg ar gyfer cyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

### Adolygu ar ôl Gweithredu

170. Mae adran 10A (8) o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru adolygu gweithrediad y Rheoliadau a chyhoeddi casgliadau'r adolygiad o fewn 5 mlynedd i ddyddiad dod i rym y Rheoliadau.

---

[47] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk) - paragraff 223
[48] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk) - paragraff 225-243

# Atodiad A – crynodeb o'r costau amcangyfrifedig yn yr opsiynau a gyflwynir

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

**Opsiwn 1 – Costau i Lywodraeth Cymru:**

| Cam Gweithredu | Costau (£) |
|---|---:|
| Paratoi ar gyfer 'gweithgareddau rhannu gwybodaeth' | 84.80 |
| Costau datblygu e-ddysgu | 9,412.80 |
| Cyflwyno hyfforddiant archwiliad dwfn yn Gymraeg | 17,000.00 |
| Canllawiau ysgrifenedig dwyieithog | 18,000.00 |
| **Cyfansymiau (wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf)** | **44,000** |

**Opsiwn 1 – costau i awdurdodau contractio:**

| Cam Gweithredu | Costau (£) |
|---|---:|
| 'Awdurdodau Contractio Cymru' i fynychu e-ddysgu | 662,118.40 |
| 'Awdurdodau Contractio Cymru' i ymgymryd â'r hyfforddiant 'archwiliad dwfn' | 360,400.00 |
| **Cyfansymiau (wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf)** | **1,023,000** |

**Opsiwn 2 – Cyflwyno rheoliadau a gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru – i'w defnyddio gan awdurdodau perthnasol (GIG Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru) (Yr opsiwn a ffefrir).**

**Opsiwn 2 – Costau i Lywodraeth Cymru:**

| Cam Gweithredu | Costau (£) |
|---|---:|
| **Camau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Caffael** | |
| Paratoi ar gyfer 'gweithgareddau rhannu gwybodaeth' | 84.80 |
| Costau datblygu e-ddysgu | 9,412.80 |
| Cyflwyno hyfforddiant archwiliad dwfn yn Gymraeg | 17,000.00 |
| Canllawiau ysgrifenedig dwyieithog | 18,000.00 |
| | |
| **Camau sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru)** | |
| Costau staff Llywodraeth Cymru (2 flynedd) | 536,000.00 |
| **Cyfansymiau (wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf)** | **580,497** |

**Opsiwn 2 – costau i awdurdodau contractio/awdurdodau perthnasol:**

| Cam Gweithredu | Costau (£) |
|---|---|
| **Camau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Caffael** | |
| 'Awdurdodau Contractio Cymru' i fynychu e-ddysgu | 662,118.40 |
| 'Awdurdodau Contractio Cymru' i ymgymryd â'r hyfforddiant 'archwiliad dwfn' | 360,400.00 |
| **Camau sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru)** | |
| GIG Cymru yn mynychu hyfforddiant polisi a hyfforddiant ymarferwyr | 77,023.00 |
| Awdurdod Lleol yn mynychu hyfforddiant polisi a hyfforddiant ymarferwyr | 39,980.00 |
| **Cyfansymiau (wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf)** | **1,140,000** |

**Opsiwn 3 - Cyflwyno rheoliadau a gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru - wedi'i chyfyngu i'w defnyddio gan GIG Cymru yn unig.**

**Opsiwn 3 – Costau i Lywodraeth Cymru:**

| Cam Gweithredu | Costau (£) |
|---|---|
| **Camau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Caffael** | |
| Paratoi ar gyfer 'gweithgareddau rhannu gwybodaeth' | 84.80 |
| Costau datblygu e-ddysgu | 9,412.80 |
| Cyflwyno hyfforddiant archwiliad dwfn yn Gymraeg | 17,000.00 |
| Canllawiau ysgrifenedig dwyieithog | 18,000.00 |
| | |
| **Camau sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru)** | |
| Costau staff Llywodraeth Cymru (2 flynedd) | 536,000.00 |
| **Cyfansymiau (wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf)** | **580,497** |

**Opsiwn 3 – costau i awdurdodau contractio/awdurdodau perthnasol:**

| Cam Gweithredu | Costau (£) |
|---|---|
| **Camau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Caffael** | |
| 'Awdurdodau Contractio Cymru' i fynychu e-ddysgu | 662,118.40 |
| 'Awdurdodau Contractio Cymru' i ymgymryd â'r hyfforddiant 'archwiliad dwfn' | 360,400.00 |
| **Camau sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru)** | |
| GIG Cymru yn mynychu hyfforddiant polisi a hyfforddiant ymarferwyr | 77,023.00 |
| **Cyfansymiau (wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf)** | **1,100,000** |